
# Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040

Drafft Ymgynghori: 7 Awst – 1 Tachwedd 2019

Llywodraeth Cymru
Welsh Government








© Hawlfaint y Goron 2019 WG37092 ISBN digidol 978-1-83876-658-0 ISBN argraffu 978-1-83876-657-3

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair gan Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru | | 4 |
| Rhagair gan Julie James AC, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai | | 5 |
| 1. | Cyflwyniad | 6 |
| 2. | Cymru: Trosolwg – Heriau a Chyfleoedd | 12 |
| 3. | Canlyniadau'r FfDC | 18 |
| 4. | Dewisiadau Strategol a Gofodol: Strategaeth Ofodol y FfDC | 22 |
| | Diagram strategol | 25 |
| 5. | Rhanbarthau | 44 |
| | Gogledd Cymru | 48 |
| | Canolbarth a De-orllewin Cymru | 55 |
| | De-ddwyrain Cymru | 61 |

# Rhagair gan Mark Drakeford

Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hwn yn nodi lle'r ydym ni'n meddwl dylai dyfu a'r mathau o ddatblygiad sydd eu hangen arnom dros yr ugain mlynedd nesaf, i'n helpu i fod yn gymdeithas gynaliadwy a ffyniannus.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu bod rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill feddwl am effeithiau tymor hir y penderfyniadau a wnawn heddiw, ac mae'r ethos hwn yn glir drwy gydol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Mae'n anodd dychmygu sut y gallai'r byd edrych yn 2040. Rydym yn gwybod bod heriau sylweddol i'w cyflawni, yn enwedig wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Dyma her ddiffiniol ein hamser yn fyd-eang a dyna pam rydym wedi datgan argyfwng yn yr hinsawdd. Mae mynd i'r afael â'r achosion a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn ystyriaeth allweddol yn ein cynlluniau a gobeithion i Gymru.



Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn elfen hanfodol o wneud Cymru yn lle teg, gwyrdd a llewyrchus. Mae'n ategu ac yn adeiladu ar ein strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, ein Cynllun Gweithredu Economaidd a'n cynllun ar gyfer Cymru Carbon Isel. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn ein hymrwymo i greu Cymru fwy cyfartal. Gwyddom o Gomisiwn y DU2070 bod anghydraddoldebau â gwreiddiau dwfn ar draws y DU. Daeth y Comisiwn i'r casgliad "Nad ydym (yn y DU) yn manteisio'n llawn ar y potensial economaidd sydd gan bob rhan o'r DU ei gynnig". Mae taclo anghydraddoldeb wrth wraidd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Mae'n cwmpasu ystod o faterion a heriau, gan gynnwys cyflenwad ynni, trafnidiaeth, yr amgylchedd naturiol, tai a datblygu diwydiannol. Ni allwn esgus y bydd cynllun hirdymor yn dileu yr holl densiynau sydd yn rhan anochel o lunio polisi, ond fe fydd yn rhoi sail i ni ar gyfer ein penderfyniadau ac yn helpu i esbonio sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn glir pa fath o le yr hoffem i Gymru fod erbyn 2040 ac mae'r weledigaeth glir honno yn amhrisiadwy wrth i ni wneud penderfyniadau mawr sy'n effeithio ar ddyfodol ein gwlad.

Mae cryn dipyn o gydweithio gan randdeiliaid a chymunedau ledled Cymru wedi digwydd wrth baratoi'r ddogfen hon ac rwy'n ddiolchgar am eich cefnogaeth barhaus. Mae'r ymgynghoriad ar y drafft hwn o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar agor tan 1 Tachwedd ac rwy'n eich annog i gymryd rhan.

**Mark Drakeford AC**
Prif Weinidog Cymru

# Rhagair gan Julie James

Mae'n bleser gennyf lansio'r ymgynghoriad hwn ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae'n gyfrifoldeb cyffrous i fod yn cynnig gweledigaeth ofodol Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu dros ugain mlynedd ac rwy'n hyderus y gall gefnogi ein huchelgais i wneud Cymru yn lle iachach, tecach a mwy llewyrchus.

Rydym yn gwybod y bydd yr ugain mlynedd nesaf yn gweld newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym ar hyn o bryd yn byw ein bywydau. Gallwn ddisgwyl chwyldro i'r ffordd rydym yn teithio, gyda thwf cerbydau trydan a'r potensial i gerbydau awtomataidd ddod yn fwy amlwg. Mae'r rhyngrwyd eisoes yn ein gwneud yn fwy hyblyg o ran ble y gallwn wneud ein gwaith ac mae'n debygol bod rôl a phwrpas canol ein trefi wedi newid am byth. Rydym hefyd yn gwybod bod newid yn yr hinsawdd yn mynnu gwahanol agweddau tuag at ynni a meddylfryd hirdymor yn ein cynllunio.

Nid rhagweld yn union sut gallai Cymru newid dros yr ugain mlynedd nesaf yw'r her i gynllun fel yr FfDC o reidrwydd, ond i wneud yn siŵr ein bod â'r gallu i adeiladu cymdeithas ac economi sy'n hyblyg ac yn wydn, i alluogi pob un ohonom i elwa o'r newidiadau mewn ffordd gynaliadwy. Mae'n golygu bod gan y FfDC ffocws cryf ar deithio cynaliadwy, gyda polisïau ar systemau Metro a seilwaith gwefru cerbydau allyriadau isel Mae'n gosod gweledigaeth glir ar gyfer mwy o ynni adnewyddadwy, ynghyd â ymrwymiad am ragor a gwell seilwaith gwyrdd.

Un o'm blaenoriaethau personol fel Gweinidog yw sicrhau bod cyfle gan bawb i gael cartref da. Fel gwlad nid ydym wedi darparu'r cartrefi sy'n bodloni ein holl anghenion. Mae darpariaeth tai dan arweiniad y farchnad wedi methu i ddiwallu anghenion llawer gormod o bobl. Edrychaf ymlaen at ddatblygiadau tai yn y dyfodol sy'n cynnwys llawer mwy o dai i'w rhentu gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill. Rwy' eisiau system gynllunio sy'n gyson yn darparu digon o gartrefi i ddiwallu ein holl anghenion a system sy'n ei gwneud yn haws byw bywydau egnïol ac iach.

Gobeithiaf y bydd y polisïau yn y FfDC, ynghyd â'r arweinyddiaeth gref a nodir yn y Polisi Cynllunio Cymru newydd, yn helpu i wireddu hyn.

Nodwedd bwysig iawn o'r ddogfen hon yw'r polisïau rhanbarthol. Ar draws y Llywodraeth rydym wedi ymrwymo i alluogi dulliau pwrpasol sy'n gweddu i'r gwahanol rannau o Gymru i gael eu datblygu. Rydym yn cynnig yr un ôl-troed rhanbarthol â'r Cynllun Gweithredu Economaidd, fel bod gan awdurdodau cynllunio lleol a'u rhanddeiliaid sail gyson ar gyfer gweithio'n rhanbarthol a bod anogaeth i symud ymlaen gyda pharatoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

Rwy'n credu'n gryf y bydd ein system a arweinir gan y cynllun yn gweithio'n effeithlon ac yn darparu'r canlyniadau gorau pan fydd set lawn o gynlluniau ar draws y dair haen – cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Rydym yn agos at gyfres lawn o Gynlluniau Datblygu Lleol yn yr awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol, a gallwn edrych ymlaen at gael y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar waith y flwyddyn nesaf.

Dyma fersiwn gyntaf y FfDC. Mae wedi elwa'n fawr o gyfraniad rhanddeiliaid drwy gydol y gwaith paratoi. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn diweddaru'r FfDC bob 5 mlynedd ond rwy'n awyddus iawn i ddefnyddio'r cyfle cyntaf hwn i osod llwybr uchelgeisiol tuag at wneud lleoedd cynaliadwy sy'n gweithio i bawb yn ein cymdeithas.

Edrychaf ymlaen at glywed eich barn amdano.

**Julie James AC**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai

# 1 Cyflwyniad

**Mae rheoli newid a chynllunio datblygiadau a fydd yn para am genedlaethau yn un o gyfrifoldebau pwysicaf llywodraeth. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cynllun ugain mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer llywio twf a datblygiad ein gwlad yn y dyfodol.**

## Beth yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?

Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn gynllun datblygu newydd a fydd yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer gwaith datblygu yng Nghymru o 2020 i 2040. Mae'n nodi strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, datgarboneiddio, datblygu ecosystemau gwydn a gwella iechyd a lles ein cymunedau.

Mae'r FfDC yn gynllun *gofodol*, sy'n golygu ei fod yn pennu cyfeiriad ar gyfer ble y dylem fod yn buddsoddi mewn seilwaith a gwaith datblygu er budd Cymru a'i phobl. Mae'r FfDC yn gosod yr her o sicrhau'r gwelliannau hyn i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'n tanlinellu pwysigrwydd *cynllunio* seilwaith a gwaith datblygu newydd mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn flaenoriaethau ategol yn hytrach na chroes, gan sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd ac y sicrheir buddiannau lluosog.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd. Mae'n gofyn bod gwaith datblygu a defnydd tir yn cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. O dan yr ymrwymiad hwn i sicrhau datblygu cynaliadwy, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant  Mae penderfynu ble i fuddsoddi neu ystyried a yw datblygiad yn addas mewn lle penodol yn benderfyniadau anodd lle mae angen sicrhau cydbwysedd yn aml rhwng blaenoriaethau croes. Rhaid inni geisio dod o hyd i atebion sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant. Mae'r FfDC yn rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol ar gyfer gwneud y penderfyniadau hyn.


Y FfDC yw'r haen uchaf o **gynllun datblygu** ac mae'n canolbwyntio ar faterion a heriau ar lefel genedlaethol. Mae ei natur strategol yn golygu nad yw'n dyrannu datblygiadau i bob rhan o Gymru, ac nid yw'n cynnwys polisïau ar bob math o ddefnydd tir ychwaith. Mae'n fframwaith yr adeiledir arno gan Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) ar lefel ranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) ar lefel awdurdod lleol. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi lleoliad seilwaith a datblygiadau newydd. Mae'n ofynnol i CDSau a CDLlau gydymffurfio â'r FfDC a rhaid iddynt gael eu diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod nhw a'r FfDC yn cydweithio'n effeithiol. Rhaid i benderfyniadau cynllunio ar bob lefel o'r system gynllunio yng Nghymru gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu yn gyffredinol.


FALCON
WILLMOTT DIXON
SINCE 1852

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin cyfreithiol rwymol – y saith nod llesiant – i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd a chyrff cyhoeddus penodedig eraill. Mae'n nodi'r ffyrdd y mae'n rhaid i'r cyrff hyn weithio, a chydweithio, er mwyn gwella llesiant Cymru. Drwy'r Ddeddf y bydd Cymru yn gwneud ei chyfraniad at gyflawni 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Wrth ddatblygu'r FfDC, rydym wedi cydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf. Mae ymgorffori egwyddorion y Ddeddf, gan gynnwys y pum ffordd o weithio (meddwl hirdymor, atal, cydweithio, integreiddio a chynnwys)  yn ein meddwl strategol a'n gwaith datblygu polisi, wedi llywio'r FfDC ac wedi dylanwadu arno. Rydym wedi ystyried yn ofalus sut mae'r FfDC yn adlewyrchu'r nodau a'r amcanion llesiant a'r ffyrdd o weithio, yn cyd-fynd â nhw ac yn sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at eu cyflawni.



## Strwythur y Ddogfen

Mae i'r ddogfen strwythur dilyniannol, gyda phob adran yn adeiladu ar yr un flaenorol.

| Cyflwyniad | Heriau a Chyfleoedd | Canlyniadau'r FfDC | Strategaeth Ofodol | Y Rhanbarthau |
|---|---|---|---|---|

Mae'r bennod gyntaf yn esbonio sut mae'r FfDC yn cyd-fynd ag amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru a diben y FfDC. Nodir yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf ym Mhennod 2. Mae'r bennod hon hefyd yn cyflwyno tri rhanbarth Cymru ac yn rhoi cefndir yr amodau economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol ym mhob rhanbarth:

**Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru**

Mae'r heriau a'r cyfleoedd yn llywio **canlyniadau'r FfDC**, sydd gyda'i gilydd yn weledigaeth ar gyfer newid dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r canlyniadau hyn, a nodir ym Mhennod 3, yn sail i'r penodau sy'n weddill ac yn rhoi'r cyd-destun ar eu cyfer.

Cyflwynir strategaeth ofodol ym Mhennod 4. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y prif batrymau datblygu ac ardaloedd newid y bydd y system gynllunio ar lefel genedlaethol yn canolbwyntio arnynt er mwyn cyflawni canlyniadau'r FfDC. Y strategaeth ofodol yw'r fframwaith cyffredinol ar gyfer penderfynu ble i leoli datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant. Dengys diagram strategol brif elfennau'r strategaeth ofodol.

Mae Pennod 4 hefyd yn darparu fframwaith polisi ar gyfer materion o bwys cenedlaethol sy'n ymwneud â Chymru gyfan, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, tai fforddiadwy, cyfathrebu symudol, strategol a seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau trydanol.

Mae Pennod 5 yn nodi uchelgeisiau a pholisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer twf a datblygiad o bwys cenedlaethol yn y tri **rhanbarth.** Mae'n nodi'r lleoliadau allweddol ar gyfer datblygiadau a chyfleoedd ar gyfer datblygu seilwaith ac yn sefydlu fframwaith ar gyfer gwaith cynllunio rhanbarthol a lleol.



### Sut mae'r FfDC yn cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru?

Mae'r FfDC yn rhoi mynegiant gofodol i bolisïau Llywodraeth Cymru sydd o bwys cenedlaethol. Mae i bolisïau a strategaethau, ar faterion eang eu cwmpas megis tai, trafnidiaeth, ynni, adnoddau naturiol ac iechyd, oblygiadau i bob rhan o Gymru a gellir eu cefnogi os caiff y system gynllunio ei halinio i gyflawni eu nodau. Mae'r FfDC yn sicrhau bod nodau'r system gynllunio ledled Cymru yn cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru ac yn helpu i'w cyflawni.

Diffinnir rôl a diben y FfDC gan ddeddfwriaeth a'r Rhaglen Lywodraethu. Mae **Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol**, yn nodi bod gan y FfDC rôl bwysig i'w chwarae o ran ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, drwy lywio gwaith datblygu strategol dros yr 20 mlynedd nesaf.

Dylid darllen y FfDC ochr yn ochr â *Pholisi Cynllunio Cymru* (PPC) sy'n darparu polisi cynllunio ar sail Cymru gyfan. Mae'r FfDC yn ategu PCC, gydag ymrwymiad a rennir i greu lleoedd a thrwy nodi'r blaenoriaethau gofodol ar gyfer gwaith cynllunio a datblygu sy'n gofyn am ystyriaeth ar

lefel genedlaethol. Gyda'i gilydd, ac wedi'u hategu gan Nodiadau Cyngor Technegol a chanllawiau gweithdrefnol, mae'r FfDC a PCC yn sicrhau bod y system gynllunio ledled Cymru wedi'i halinio'n llawn i weithio tuag at gyflawni uchelgeisiau cenedlaethol a nodau llesiant. Nid yw'r FfDC yn ailadrodd PCC nac yn ymdrin â phob un o'r meysydd polisi a gwmpesir gan PCC. Gyda'i gilydd, maent yn nodi sut mae'r system gynllunio yn ymateb i heriau a chyfleoedd cenedlaethol ac yn mynd i'r afael â nhw.

Defnyddir y FfDC i lywio buddsoddiad cyhoeddus a phreifat. Ein nod yw sicrhau bod buddsoddiadau a datblygiadau – p'un a ydynt yn fawr neu'n fach – yn cyfrannu at uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru a llesiant cymunedau. Mae amrywiaeth eang o strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru wedi helpu i lywio'r FfDC gan gynnwys Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y Strategaeth Drafnidiaeth a Chynllun Carbon Isel Cymru. Mae'n berthynas ddwyffordd gyda'r FfDC yn cymryd cyfeiriad strategol ac yn darparu dull cyflawni a fframwaith ar gyfer manteisio i'r eithaf ar y canlyniadau posibl.



Byddwn yn arwain y ffordd gyda'n buddsoddiadau ein hunain. Bydd yr FfDC yn ategu'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r Cynlluniau Datblygu Economaidd Rhanbarthol, drwy alluogi datblygiadau sy'n gwneud y mwyaf o'n buddsoddiadau. Mae maint yr uchelgais i sicrhau newid a nodir yn y FfDC yn adlewyrchu gallu'r sector cyhoeddus i gyflawni datblygiadau newydd. Bydd strategaeth ofodol y FfDC yn llywio'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru drwy nodi ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf, gan alinio rhaglen arfaethedig o fuddsoddiadau yn seilwaith Cymru gyda dull gweithredu gofodol y FfDC.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw'r cynllun morol cyntaf i Gymru ac mae'n ddechrau ar broses o lunio cynlluniau morol i gyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd cynllunio morol yn llywio datblygu cynaliadwy yn ein hardal forol drwy nodi sut y caiff cynigion eu hystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Bydd y FfDC a'r Cynllun Morol yn cydweithio i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli newid o amgylch ein harfordir. Bydd cydgysylltu rhwng gwaith cynllunio morol a daearol yn bwysig i gynnal busnesau a mentrau cysylltiedig mewn porthladdoedd, harbyrau a marinas; cymunedau arfordirol; twristiaeth; safleoedd cynhyrchu ynni; a morluniau a hwyluso'r gwaith o'u datblygu. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, sydd wrthi'n cael ei lunio, wedi llywio'r gwaith o baratoi'r FfDC a, lle y bo'n berthnasol, dylai lywio Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a phenderfyniadau a wneir drwy'r broses rheoli datblygu.

Mae'r FfDC yn disodli Cynllun Gofodol Cymru.

## Y FfDC ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

O dan Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (a Rheoliad 102 o'r Rheoliadau Cynefinoedd), mae angen asesiad lle mae cynllun neu brosiect yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Natura 2000 (safle dynodedig Ewropeaidd). Argymhellwyd mesurau lliniaru penodol yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y FfDC i ddarparu canllaw cryf i gynlluniau a phrosiectau haen is. Daw i'r casgliad, ar y rhagdybiaeth y caiff y mesurau lliniaru hyn eu mabwysiadu ar raddfeydd cynllunio neu haenau is, y byddai effeithiau sylweddol yn cael eu hosgoi. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ganfyddiadau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y FfDC gael ei ystyried wrth baratoi a gweithredu pob Cynllun Datblygu Strategol a Lleol

## Sut mae'r FfDC yn cyd-fynd â Chynlluniau Datblygu Strategol a Lleol?


Ceir tri math gwahanol o gynllun datblygu yng Nghymru, sef y FfDC, Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r FfDC yn cwmpasu Cymru gyfan; caiff Cynlluniau Datblygu Strategol eu llunio ar lefel ranbarthol ac maent yn cwmpasu mwy nag un ardal awdurdod cynllunio lleol; caiff Cynlluniau Datblygu Lleol eu llunio gan bob awdurdod cynllunio lleol.

Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol helpu i roi'r FfDC ar waith, a rhaid i'r penderfyniadau strategol a wneir ganddynt gydymffurfio â'r cyfeiriad a roddir gan y FfDC.

Rôl pob cynllun datblygu yw cynllunio a rheoli defnydd tir ar ei raddfa ofodol. Felly, mae'r FfDC yn ystyried materion ar lefel genedlaethol, mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn ymdrin â materion ar lefel ranbarthol

neu isranbarthol ac mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn ystyried materion ar lefel leol. Mae pob un o'r tair haen yn bwysig ac ymdrech gyfunol pob un o'r tair haen yn gweithio gyda'i gilydd sy'n sail i gryfder y system gynllunio yng Nghymru.

Lluniwyd y FfDC a'i strategaeth ofodol yng nghyd-destun y system cynllunio datblygu tair haen. Nid yw'r FfDC yn ceisio gwneud penderfyniadau y mae'n fwyaf priodol eu gwneud ar lefel ranbarthol neu leol. Mae'n rhoi cyfeiriad ac, yn achos Cynlluniau Datblygu Strategol, yn nodi'r polisïau a'r materion allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r rhanbarthau eu datblygu. Nid yw'n ceisio nodi'r union leoliad ar gyfer datblygiadau newydd na maint y twf mewn aneddiadau unigol nac yn rhagnodi union ffiniau ardaloedd lle na ddylai datblygiadau gael eu cyflawni. Yr haenau rhanbarthol a lleol yw'r lefel fwyaf priodol i wneud y penderfyniadau hyn, gyda chymunedau yn cael eu cynnwys yn y broses.



# 2 Cymru: Trosolwg – Heriau a Chyfleoedds

**Mae Cymru yn wlad â hanes hir a balch a threftadaeth gymdeithasol a diwylliannol gyfoethog. Rydym yn wynebu heriau a chyfleoedd ac rydym yn ymrwymedig i ddiogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol.**

### Poblogaeth sy'n newid

Mae mwy na 3 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru. Bu cynnydd ym mhoblogaeth y wlad o 8% rhwng 1997 a 2017 rhagamcenir y bydd yn cynyddu 4% arall d rhwng 2018 a 2038 ros yr 20 mlynedd nesaf. Mae ein poblogaeth hefyd yn heneiddio, sy'n adlewyrchu tueddiadau a welir yn y DU ac Ewrop yn fwy cyffredinol, a bydd traean yn fwy o bobl 65 oed a throsodd yn byw yng Nghymru erbyn 2038. Rydym yn byw'n hirach ond islaw'r hyd oes cyfartalog ar gyfer y DU yn gyffredinol. Mae cymunedau wedi'u gwasgaru ledled Cymru, o'r ardaloedd gogleddol a deheuol poblog i ganolbarth Cymru prin ei boblogaeth.

### Cymru lle mae'r Gymraeg yn fyw ac yn ffynnu

Mae'r Gymraeg yn iaith fyw, gyda mwy na 562,000 o siaradwyr ym mhob cwr o'r wlad. Ein huchelgais ar gyfer y Gymraeg yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â chynnydd o 10% yn y ganran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd erbyn 2050. Mae cymunedau yng nghadarnleoedd yr iaith Gymraeg yng ngogledd-orllewin a gorllewin Cymru yn parhau i fyw eu bywydau bob dydd drwy iaith sydd wedi bod yn cael ei siarad yn ein gwlad ers 1,500 o flynyddoedd.

### Adnoddau naturiol

Mae adnoddau naturiol a bioamrywiaeth ac ecosystemau gwydn yn cefnogi ein llesiant a'n ffyniant; maent wedi llywio ein gorffennol a byddant yn llywio ein dyfodol. Glo, dur a haearn o Gymru a yrrodd y chwyldro diwydiannol ac mae ein hadnoddau gwynt, solar a llanwol yn cyfeirio at ddyfodol cynaliadwy, glanach. Rydym yn dibynnu ar adnoddau naturiol o ansawdd uchel i gynnal ein diwydiannau, darparu ein bwyd, ein haer glân a'n dŵr a chreu swyddi a chyfoeth. Rydym yn ymrwymedig i fyw o fewn yr adnoddau sydd gennym, gan ddefnyddio dim ond ein cyfran o adnoddau'r blaned a'u defnyddio'n effeithlon.

### Tirwedd fyw

Mae ein tirweddau ymhlith y gorau yn y byd ac maent yn adrodd hanes ein cenedl o losgfynyddoedd, rhewlifau, mynyddoedd a dyffrynnoedd afonydd i gestyll, ffermydd, treftadaeth ddiwydiannol a phorthladdoedd. Mae chwarter ein gwlad wedi'i gorchuddio â'n tri pharc cenedlaethol a'n pum ardal o harddwch naturiol eithriadol. Mae gennym gryn nifer o Safleoedd Treftadaeth y Byd ac ardaloedd cadwraeth natur ac mae ein harfordir ar dair ochr yn cysylltu cymunedau a phobl â'r môr.

### Treftadaeth ddiwydiannol

Newidiodd ein heconomi yn ddirfawr ar ddiwedd yr 20fed ganrif a bydd yn newid eto yn ystod yr 21ain ganrif. Roedd cysylltiad cryf rhwng prif ganolfannau poblogaeth Cymru yn y de a'r gogledd â'r diwydiannau trwm traddodiadol y gwnaethant dyfu o'u hamgylch, ac felly hefyd yr economïau a'r cymunedau lleol a ddibynnai arnynt. Ar gyfartaledd, mae gweithgarwch economaidd, cyflogau a chynhyrchiant yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU. Gwerth Ychwanegol Gros y pen yng Nghymru yn 2017 oedd £19,900 o gymharu â chyfartaledd y DU, sef £27,300.



## Economi sy'n newid

Mae ein heconomi bellach wedi'i seilio'n fwy ar wasanaethau ac mae ffocws cynyddol ar dechnoleg a'r sector digidol. Dros y 10 mlynedd diwethaf y rhannau o'n heconomi sydd wedi tyfu gyflymaf o ran cyflogaeth yw'r sector gwybodaeth a'r sector cyfathrebu. Mae busnesau bach a chanolig yn rhan bwysig o'n heconomi a gwnaethant dyfu'n fwy yng Nghymru yn 2018 nag yn y DU yn gyffredinol. Mae ymchwil ac arloesi yn ddau ffactor cydnabyddedig ar gyfer sbarduno mantais economaidd gystadleuol a llywio cynhyrchiant. Mae pwysigrwydd datblygu cymdeithas arloesol sy'n seiliedig ar wybodaeth, a adeiladwyd ar ymchwil ac arloesedd, yn ffactor annatod ar gyfer llywio ein cystadleurwydd byd-eang ac mae'n cynnal ein huchelgeisiau i greu economi gynaliadwy a sicrhau gwelliant cymdeithasol.

## Ein hymwelwyr

Rydym yn denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd, gyda 10% o'n hymwelwyr yn dod o'r tu allan i'r DU. Cafwyd 96 miliwn o ymweliadau dydd gan dwristiaid yn 2017, 10 miliwn o arosiadau dros nos a tua £6.3 biliwn yn cael ei gynhyrchu gan dwristiaeth ar gyfer economi Cymru.

## Gwlad gysylltiedig

Mae Cymru yn wlad fwyfwy cysylltiedig. Mae 93% o gartrefi a busnesau yn gallu derbyn gwasanaeth band eang sefydlog cyflym iawn, er mai dim ond 38% o'r cartrefi yng Nghymru sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn. Y cam nesaf yw datblygu mynediad i wasanaethau band eang sefydlog gwibgyswllt. Yn 2018, cynyddodd nifer y cartrefi a busnesau yng Nghymru a oedd yn gallu derbyn gwasanaeth gwibgyswllt bron 20% a bellach mae ar gael mewn 29% o gartrefi a busnesau yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn yn dal i fod islaw cyfartaledd y DU. Mae'n bosibl bod hyn i'w briodoli'n rhannol i'n haneddiadau gwasgaredig a'u topograffi unigryw ac mae cynyddu'r ddarpariaeth yn nod allweddol.

## Ein lle yn y byd

Rydym yn byw ochr yn ochr â'n cymdogion, gyda chysylltiadau agos ar draws y ffin yng ngogledd, canolbarth a de Cymru. Mae bron 8 miliwn o bobl yn byw o fewn 50 milltir i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Ganed mwy nag un rhan o bump o'n poblogaeth yn Lloegr. Mae pobl yn teithio bob dydd i'r ddau gyfeiriad i weithio, siopa, cymdeithasu a defnyddio gwasanaethau a sefydliadau. Rydym yn ymweld ac yn masnachu ag Iwerddon, Ewrop a thu hwnt ac mae ein porthladdoedd, ein ffyrdd a'n rheilffyrdd yn gysylltiadau allweddol â rhwydweithiau Ewropeaidd ehangach. Mae cysylltiadau da rhyngom ag Ewrop ond rydym yn ymylol mewn cyd-destun daearyddol ehangach a byddwn yn ceisio cynnal a gwella'r cysylltiadau hyn.

## Rhanbarthau amrywiol

Mae rhanbarth **Gogledd Cymru** yn cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam ac mae'n gartref i bron 700,000 o bobl. Mae mwy na 200,000 ohonynt yn siarad Cymraeg. Mae ei thirwedd ddramatig yn cynnwys gwastadeddau arfordirol isel, cadwyni o fynyddoedd a hen feysydd glo diwydiannol. Mae'r boblogaeth wedi'i chrynhoi mewn arc ar hyd yr arfordir o Afon Menai i'r ffin â Lloegr Yn y dwyrain o amgylch Wrecsam-Glannau Dyfrdwy y ceir y prif grynhoad o boblogaeth.

Mae rhanbarth **Canolbarth a De-orllewin Cymru** yn cynnwys Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Porth Talbot, Ceredigion, Sir Benfro a Powys ac mae ganddo boblogaeth o fwy na 900,000 o bobl. Mae mwy na 200,000 ohonynt yn siarad Cymraeg. Mae'r rhanbarth mawr ac amrywiol hwn yn cynnwys rhai o'r rhannau mwyaf gwledig a lleiaf poblog o'r DU, a'r ardaloedd trefol, diwydiannol o amgylch ail ddinas Cymru, Abertawe.

Rhanbarth **De-ddwyrain Cymru** yw'r un lleiaf yn ddaearyddol. Mae'n cynnwys Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Caerffili, Caerdydd, Casnewydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Torfaen a dyma'r rhanbarth mwyaf poblog yng Nghymru, gyda mwy nag 1.5 miliwn o drigolion. Mae mwy na 150,000 yn siarad Cymraeg. Mae'n ddinas-ranbarth pwysig ar lefel y DU. Mae'r rhanbarth yn cynnwys dinasoedd arfordirol Caerdydd a Chasnewydd a hen gadarnleoedd diwydiannol Cymoedd De Cymru.

## Heriau a Chyfleoedd

Rydym yn wynebu nifer o heriau a chyfleoedd ac mae'r rhain wedi llywio ein FfDC cyntaf.

Mae **newid yn yr hinsawdd** a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn heriau byd-eang a'r problemau mwyaf dybryd a wynebir gan ein gwlad. Mynd i'r afael â'r rhain yw ein cyfrifoldeb pennaf wrth ystyried y gwaddol y byddwn yn ei adael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac, o ganlyniad, rydym wedi datgan Argyfwng Hinsawdd. Mewn ymateb i'r her, rydym yn ymrwymedig i ddatgarboneiddio Cymru a sicrhau ecosystemau iach a gwydn. Bydd y FfDC, ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru, yn sicrhau bod y system gynllunio, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, yn canolbwyntio ar sicrhau Cymru gydnerth sydd wedi'i datgarboneiddio drwy'r lleoedd rydym yn eu creu, yr ynni rydym yn ei gynhyrchu ac yn ei ddefnyddio, economi gylchol, y tai rydym yn byw ynddynt a'r ffordd rydym yn teithio.

Gallai Cymru arwain y byd ym maes **technolegau ynni adnewyddadwy**. Mae ein hadnoddau gwynt a llanw, ein potensial i gynhyrchu ynni solar, ein cefnogaeth i brosiectau mawr a chymunedol a'n hymrwymiad i sicrhau bod y system gynllunio yn rhoi arweiniad cryf ar gyfer gweithgarwch datblygu ynni adnewyddadwy, yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i gefnogi'r sector adnewyddadwy, denu buddsoddiad newydd a lleihau allyriadau carbon.

Mae gan Gymru amrywiaeth eang o safleoedd cadwraeth natur, sy'n diogelu amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig pwysig ac unigryw. Mae **ecosystemau** yn sail i'n llesiant, ein hiechyd, ein heconomi, ein diwylliant a'n hunaniaeth. Rydym yn dibynnu arnynt i roi bwyd, deunyddiau crai a dŵr glân inni, ac i reoleiddio ein hinsawdd ac ansawdd ein haer. Mae llawer o'n diwydiannau allweddol megis amaethyddiaeth, ein coedwigoedd, ein pysgodfeydd, ein hynni, ein dŵr a'n twristiaeth yn dibynnu ar ecosystemau iach gweithredol i ffynnu a chynnal cymunedau ledled Cymru. Mae sicrhau bod ein hecosystemau yn wydn yn cynnig cyfle i hyrwyddo twf gwyrdd ac arloesedd i greu swyddi cynaliadwy a chynnal economi sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chymunedau iach, egnïol, cynaliadwy a chysylltiedig.

Wrth i'n hinsawdd newid, rhagwelir y bydd y pwysau ar **adnoddau dŵr** yn cynyddu. Bydd cyflenwi a rheoli dŵr yn fwyfwy pwysig. Ar hyn o bryd, gall Cymru ddiwallu ei hanghenion o ran dŵr a gallwn gludo dŵr o'r ffynhonnell i ardaloedd lle mae galw amdano. Mae lleoliad twf yn y dyfodol yn cynnig cyfle i ystyried sut a ble y bydd angen dŵr arnom yn y dyfodol. Mae canolbwyntio gwaith datblygu mewn ardaloedd adeiledig sy'n bodoli eisoes yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen ffynonellau newydd sylweddol o ddŵr, ond mae'n rhaid inni ystyried yr effaith y gallai newid yn yr hinsawdd ei chael ar y cyflenwad o ddŵr a'i argaeledd.

Mae rheoli ein **harfordiroedd** yn bwysig i bob rhanbarth yng Nghymru. Mae'r mwyafrif o bobl yn byw yn yr ardaloedd arfordirol adeiledig, Mewn ardaloedd arfordirol mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn nodi cyfleoedd i wneud ecosystemau yn fwy gwydn a llywio dewisiadau gofodol mewn perthynas â gwaith datblygu, gan ystyried erydiad a'r perygl o lifogydd yn y dyfodol.

Mae **teithio** ledled Cymru yn cael ei lywio gan ein topograffi a'r pellter rhwng y prif ardaloedd adeiledig yn y gogledd a'r de. Mae'r cysylltiadau rhwng Gogledd Cymru a De Cymru yn dameidiog ac nid oes modd teithio yn y trên heb adael y wlad. Mae cysylltiadau o'r dwyrain i'r gorllewin yn well, ond ceir tagfeydd ar y rhwydwaith ffyrdd o a rheilffyrdd bryd i'w gilydd. Mae buddsoddi'n sylweddol mewn trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys y cynlluniau Metro a seilwaith teithio llesol, gan gynnwys y llwybrau cerdded a beicio sy'n cael eu datblygu o ganlyniad i'r Ddeddf Teithio Llesol, yn cynnig cyfle i ailystyried sut mae ein lleoedd yn gweithio. Dylai twf fod yn seiliedig ar ddulliau cynaliadwy o deithio a chreu lleoedd sy'n ein gwneud ni a'r amgylchedd yn iachach. Mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn rhan bwysig o'n seilwaith cenedlaethol ac mae'r gwelliannau y bwriedir eu gwneud iddo yn cael eu cefnogi.

Mae **agregau** yn sail i dwf economaidd, am eu bod yn darparu cynhyrchion cysylltiedig ag adeiladu sy'n hanfodol i greu lleoedd, codi tai a datblygu seilwaith. Lle mae gwaith adeiladu yn arwain at gynnydd yn y galw am agregau, a achosir er enghraifft gan brosiectau seilwaith



mawr, rhoddir pwysau ar y diwydiant mwynau i ddarparu'r deunyddiau sydd eu hangen. Mae gwaith cynllunio effeithiol yn sicrhau bod cyflenwad da o gronfeydd wrth gefn a ganiateir ar gael i ategu capasiti cynhyrchu sy'n bodoli eisoes ar unrhyw adeg benodol. Mae cyflenwad dibynadwy o fwynau, sy'n gallu ateb y galw ym mhob rhanbarth yng Nghymru ar yr un pryd, yn hanfodol bwysig.

Mae cyflymder y newid ym maes **technoleg** yn her ac yn gyfle i bob gwlad. Mae'n bosibl nad yw'r swyddi y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn eu gwneud wedi'u dyfeisio eto. Bydd technolegau Awtomeiddio a Deallusrwydd Artiffisial yn effeithio ar bob galwedigaeth. Gallai datblygiadau newydd mewn technolegau megis cerbydau trydanol, ar y cyd â chymwysiadau dyfeisiau symudol sy'n darparu gwasanaethau trafnidiaeth pwrpasol, ail-lunio'r ffordd rydym yn teithio, y cerbydau rydym yn berchen arnynt, trafnidiaeth gyhoeddus a'r lleoedd y byddwn yn byw ynddynt. Mae patrymau gwaith yn newid hefyd, gan ddod yn fwy hyblyg o ran lleoliad ac oriau a chynnig y potensial inni wneud sawl swydd yn hytrach na dim ond un yn ystod ein gyrfaoedd. Mae'r FfDC a Pholisi Cynllunio Cymru yn helpu i ddarparu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi technolegau newydd a sicrhau y gall y lleoedd y byddwn yn eu creu yn y dyfodol gynnal ein cymdeithas sy'n newid.

Mae'r FfDC wedi'i lunio ar adeg pan fo'r DU yn newid ei chydberthynas ag Ewrop. Rhwng 2016 a 2019, mae **Brexit** wedi bod wrth wraidd trafodaeth gyhoeddus ac mae wedi creu cryn dipyn o ansicrwydd ynglŷn â'n cydberthynas ag Ewrop yn y dyfodol ac wedi arwain at lunio amrywiaeth eang o fframweithiau polisi sefydledig, sy'n effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau. Fel gwlad, rydym yn arbennig o agored i effeithiau Brexit. Mae cyllid amaethyddol a rhaglenni adfywio yn feysydd polisi cyhoeddus pwysig sydd wedi cael eu llywio gan bolisïau a chyllid Ewropeaidd ehangach. Mewn ymateb, nod y FfDC yw darparu fframwaith cadarnhaol, rhagweithiol, er mwyn rhoi sicrwydd a chyfeiriad o ran ble bydd Cymru yn tyfu ac ymhle y byddwn yn buddsoddi. Mae hefyd yn darparu fframwaith sy'n ymateb i amgylchiadau sy'n newid er mwyn sicrhau y gallwn wneud penderfyniadau ar faterion polisi yn y dyfodol sydd eto i'w diffinio.

**Ffyniant ac anghydraddoldeb** yw'r flaenoriaeth o hyd ar gyfer polisïau Llywodraeth Cymru. Nid yw ffyniant yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng pob rhan o Gymru ac mae ein hardaloedd tlotaf yn dal i fod ymhlith rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU. Mae iechyd yn amrywio ledled Cymru, gyda gwahaniaethau mawr rhwng canlyniadau iechyd ein cymunedau tlotaf a rhannau eraill o'r wlad. Mae'r FfDC yn darparu fframwaith i waith cynllunio rhanbarthol fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a sicrhau bod y rhannau mwyaf ffyniannus o Gymru yn chwarae rôl o ran cefnogi eu rhanbarthau ehangach. Bydd yn sicrhau ein bod yn cymryd camau i ddiwallu anghenion y rhai sy'n ei chael hi'n anodd cael tai a bod y lleoedd rydym yn eu creu yn ein gwneud yn hapusach ac yn iachach.

**Tai fforddiadwy** o ansawdd da yw conglfaen cymunedau ac maent yn darparu'r sail i unigolion a theuluoedd ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae'r FfDC yn darparu tystiolaeth o'r angen am dai ledled Cymru yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Yn benodol, dengys y dystiolaeth hon fod angen canolbwyntio ar gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a ddarperir. Mae Llywodraeth Cymru yn targedu ei hymyriadau tai a'i hymyriadau cynllunio at gyflawni'r nod hwn yng nghyd-destun ehangach cynyddu'r cyflenwad ac ymateb i anghenion gwahanol.

Mae ein cymdeithas yn **heneiddio** ac mae angen inni feddwl am y math o dai y byddwn yn byw ynddynt yn y dyfodol; lle maent wedi'i lleoli; y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau gofal iechyd a fydd yn ein cefnogi; a'r math o leoedd yr hoffem ni, fel poblogaeth sy'n heneiddio, fyw ynddynt. Mae hefyd yn ein hatgoffa bod angen inni gadw a denu pobl ifanc a hyrwyddo ffyrdd egnïol o fyw. Mae'r FfDC, ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru, yn canolbwyntio'n gryf ar y lleoedd rydym yn eu creu drwy ein system gynllunio. Nid yw adeiladu tai na seilwaith newydd yn nod ynddo'i hun. Rydym yn benderfynol o greu lleoedd sy'n cefnogi ein llesiant drwy gydol ein hoes.

Bydd y FfDC yn ein helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol. Mae Canlyniadau'r FfDC yn nodi'r Gymru rydym am ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

# 3 Canlyniadau'r FfDC

Mae nodi'r hyn rydym am ei gyflawni yn gam pwysig yn y broses o baratoi cynllun a llunio strategaeth ddatblygu. Mae canlyniadau'r FfDC yn uchelgeisiau cyffredinol sy'n seiliedig ar yr egwyddorion cynllunio cenedlaethol a'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Gyda'i gilydd mae'r 11 o Ganlyniadau yn ddatganiad o ble yr hoffem fod ymhen 20 mlynedd. Mae pob rhan o'r FfDC, o'r strategaeth ofodol i bolisïau rhanbarthol, yn ymwneud â chyflawni Canlyniadau'r FfDC. Bydd y rhan fwyaf o feysydd polisi yn cyfrannu at nifer o Ganlyniadau.

Drwy'n FfDC, byddwn yn datblygu'r canlynol:

### Cymru lle mae pobl yn byw....

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio.

Gellir cyflawni'r 11 o Ganlyniadau dros yr 20 mlynedd nesaf os bydd y system gynllunio – drwy'r FfDC a chynlluniau datblygu eraill – yn canolbwyntio ar yr hirdymor ac yn darparu datblygiadau o ansawdd uchel yn y lleoedd cywir am y rhesymau cywir. Mae'r Canlyniadau yn gydgysylltiedig ac yn rhyng-ddibynnol a byddant yn gwella lleoedd a llesiant ledled Cymru.


Colwyn Bay
Abergele
Towyn
Rhyl

## Canlyniad

| | |
|---|---|
| 1 | **Bydd cysylltiadau ffisegol a digidol da rhwng ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi a byddant yn cynnig ansawdd bywyd da i'w trigolion.** Bydd cartrefi o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion cymdeithas mewn lleoliadau da mewn perthynas â swyddi, gwasanaethau a mannau gwyrdd ac agored hygyrch. Bydd lleoedd yn diwallu anghenion poblogaeth amrywiol, gyda chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol hygyrch. |
| 2 | **Mewn ardaloedd gwledig, caiff cyfleoedd gwaith a gwasanaethau cymunedol eu cefnogi, er mwyn helpu i ddenu a chadw pobl.** Sicrheir cydbwysedd rhwng datblygu a diogelu cymeriad Cymru wledig, gan sicrhau y bydd i'n trefi a'n pentrefi bach ddyfodol disglair fel lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt. Caiff y sector amaethyddol a'i gadwyni cyflenwi eu cefnogi er mwyn eu gwneud yn fwy gwydn drwy arallgyfeirio. |
| 3 | **Bydd y dull gweithredu rhanbarthol yn cydnabod bod rhannau gwahanol o Gymru yn gweithio'n wahanol i'w gilydd, gyda'u nodweddion a'u heriau sylfaenol eu hunain.** Bydd y tri rhanbarth yn mynd i'r afael â chydraddoldebau, drwy feithrin cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a busnesau. Caiff pob rhanbarth ei annog i adeiladu ar ei gryfderau presennol a manteisio ar gyfleoedd i sicrhau mwy o ffyniant a gwella llesiant. |
| 4 | **Ein nod yw sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 – sef cynnydd o bron 80% o gymharu â'r lefelau presennol.** Os mai'r Gymraeg yw iaith bob dydd y gymuned, caiff gwaith datblygu ei reoli er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael fel y gall yr iaith barhau'n ganolog i hunaniaeth y cymunedau hynny. Mewn mannau eraill bydd awdurdodau addysg yn arwain ar ddatblygu'r seilwaith i alluogi yr iaith ddatblygu fel rhan naturiol, ffyniannus o gymunedau. |
| 5 | **Mae dinasoedd a threfi mawr yn denu swyddi a buddsoddiad, tra bod pobl yn cael eu denu i fyw a gweithio yno oherwydd y cyfleoedd economaidd a chymdeithasol a gynigir ganddynt.** Bydd cynlluniau datblygu yn cefnogi dyheadau trefi mawr a dinasoedd i dyfu a'u galluogi i wneud hynny, yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd a dylunio trefol, teithio llesol a buddsoddi mewn seilwaith adeiledig a gwyrdd allweddol er mwyn i'r boblogaeth a'r economi allu tyfu wrth leihau llygredd. Bydd ardaloedd y tu allan i'r canolfannau trefol yn elwa'n uniongyrchol ar gryfder ein trefi mawr a'n dinasoedd, drwy well cysylltedd a buddsoddiad ychwanegol mewn cartrefi, swyddi a gwasanaethau newydd. |
| 6 | **Bydd gan Gynlluniau Datblygu agwedd flaengar, gadarnhaol at alluogi datblygu economaidd, buddsoddi ac arloesi.** Y nod fydd sicrhau mwy o ffyniant a chynhyrchiant ym mhob rhan o Gymru, gan adeiladu ar y gweithgarwch presennol a hyrwyddo diwylliant o arloesedd, partneriaeth gymdeithasol, entrepreneuriaeth a datblygu sgiliau mewn diwydiannau a sectorau cynaliadwy. Bydd diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd Cymru yn chwarae rôl fodern, gadarnhaol yn yr economi drwy ddenu diddordeb a gwariant twristiaid a darparu brand unigryw y gellir ymddiried ynddo i fusnesau yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| **7** | **Bydd angen sicrhau mai dim ond effaith fach a gaiff pob dull o deithio ar yr amgylchedd ac y bydd yn creu lefelau isel o allyriadau, gyda cherbydau a thrafnidiaeth gyhoeddus ag allyriadau isel iawn yn disodli cerbydau petrol a diesel.** Bydd teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn rhan bwysig o'r cymysgedd o ddulliau teithio, ynghyd â llai o ddibyniaeth ar y defnydd o gerbydau preifat, gyda seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy wedi'i ymgorffori mewn datblygiadau newydd er mwyn sicrhau mynediad hawdd a chyfleus o'r naill le i'r llall at ddibenion cymudo, busnes, twristiaeth a hamdden. |
| **8** | **Bydd darpariaeth band eang yn datblygu, gan ddechrau gyda darpariaeth band eang cyflym iawn i Gymru gyfan a symud ymlaen i fand eang ffeibr gwibgyswllt, a fydd yn helpu busnesau i fod yn fwy cynhyrchiol, cadarn ac arloesol.** Bydd gwell cyfathrebu digidol yn galluogi newidiadau i'r economi a ffordd o fyw ac yn sicrhau y gall Cymru gadw i fynd â'r datblygiadau technolegol byd-eang diweddaraf ac arwain datblygiadau o'r fath. |
| **9** | **Mae adnoddau naturiol Cymru, gan gynnwys ei mwynau, ei harfordir, ei dŵr, ei choedwigoedd a'i thirwedd, yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau a sectorau ac maent yn asedau gwerthfawr yn eu rhinwedd eu hunain.** Caiff gwerth amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ein hadnoddau eu rheoli, eu cynnal a'u gwella, tra caiff manteision economaidd eu defnyddio'n gynaliadwy ac yn briodol drwy hyrwyddo atebion sy'n seiliedig ar natur ac economi gylchol. Ledled Cymru caiff gwell dewisiadau o ran adnoddau eu hadlewyrchu mewn lleoedd mwy cynaliadwy, sy'n cael budd o ostyngiadau mewn lefelau llygredd, ac sy'n lleoedd iachach a gwell i fyw ynddynt. |
| **10** | **Mae'r amrywiaeth o fflora a ffawna a geir ledled Cymru yn gwneud Cymru yn lle arbennig.** Mae bioamrywiaeth yn sail i weithrediad ecosystemau gwydn iach a'r buddiannau lluosog a ddarperir ganddynt. Er bod bioamrywiaeth wedi lleihau yn ystod y degawdau diwethaf, byddwn yn gwrthdroi'r colledion hyn ac yn gwneud ecosystemau yn fwy gwydn. Bydd y system gynllunio yn ei gwneud yn bosibl i fywyd gwyllt ffynnu mewn cynefinoedd iach ac amrywiol, mewn ardaloedd trefol a gwledig, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r buddiannau lluosog i bobl a natur. |
| **11** | **Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn gofyn am weithredu ar fyrder i fynd i'r afael ag allyriadau carbon ac mae'n rhaid i'r system gynllunio helpu Cymru i arwain y ffordd o ran hyrwyddo a chreu cymdeithas gystadleuol a chynaliadwy sydd wedi'i datgarboneiddio.** Caiff ymrwymiadau a thargedau o ran datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy eu trin fel cyfleoedd i sicrhau economi carbon isel gadarnach a thecach, datblygu seilwaith trafnidiaeth glân ac effeithlon, gwella iechyd y cyhoedd a chreu swyddi crefftus mewn sectorau newydd. |

# 4 Strategaeth a Dewisiadau Gofodol: Strategaeth Ofodol y FfDC

Mae strategaeth ofodol yn nodi strwythur ar gyfer y math o ddatblygiadau a gyflawnir ledled ardal y cynllun a'u lleoliad. Mae'n nodi'r aneddiadau allweddol y bydd gwaith datblygu wedi'i ganolbwyntio arnynt a'r seilwaith, y drafnidiaeth a'r adnoddau sy'n ofynnol a'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn cefnogi'r strategaeth.

Mae strategaeth ofodol y FfDC yn fframwaith arweiniol ar gyfer y lleoedd hynny y bydd newid ar raddfa fawr a datblygiadau o bwys cenedlaethol wedi'u canolbwyntio arnynt dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn cyfuno'r patrymau anheddu presennol a dosbarthiad swyddi a chartrefi â gweledigaeth i reoli newid a thueddiadau yn y dyfodol er budd pawb yng Nghymru.

Mae'r strategaeth ofodol yn helpu i gyflawni Canlyniadau'r FfDC. Bydd penderfyniadau a wneir ar lefel genedlaethol, gan gynnwys y buddsoddiadau y mae Llywodraeth Cymru yn dewis eu gwneud, yn adlewyrchu egwyddorion y strategaeth hon ac yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at gyflawni'r amcanion creu lleoedd cenedlaethol.

Ein strategaeth yw adeiladu ar gryfderau presennol ac atgyfnerthu manteision. Mae'n annog patrymau datblygu cynaliadwy ac effeithlon, sy'n seiliedig ar gydleoli cartrefi â swyddi a gwasanaethau hanfodol a defnyddio adnoddau yn effeithlon. Mae'n cyfrannu at gyflawni amcanion datgarboneiddio a bioamrywiaeth ac yn cefnogi uchelgeisiau cenedlaethol i wella iechyd.  Mae'n ein galluogi i greu cymunedau cynaliadwy, ffyniannus ac mae'n cydfynd â amcanion ehangach Llywodraeth Cymru o annog miliwn o bobl i siarad Cymraeg erbyn 2050.

Mae cydleoli cartrefi, swyddi a gwasanaethau yn golygu canolbwyntio ar ddinasoedd a threfi mawr fel y prif ardaloedd datblygu. Bydd datblygu ein hardaloedd trefol i wella eu perfformiad yn anodd ond rydym yn gryf o'r farn mai hon yw'r uchelgais gywir i Gymru a'i bod yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i gyfiawnder cymdeithasol. Petawn yn dewis datblygu trefi newydd a galluogi datblygiadau gwasgarog ar feysydd glas, byddem yn anwybyddu potensial lleoedd sydd eisoes â chanol trefi, prifysgolion a cholegau, seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus ac amrywiaeth dda o wasanaethau cyhoeddus, potensial na fanteisiwyd arno eto. Byddai hefyd yn gwastraffu asedau allweddol ar ffurf cefn gwlad cynhyrchiol ac adnoddau naturiol.

Bydd y ffocws ar ardaloedd trefol sy'n tyfu yn creu crynoadau o swyddi, gwasanaethau ac amwynderau a màs critigol o bobl i gynnal gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus da ac amrywiaeth o weithgareddau economaidd. Mae ffocws ar dwf trefol yn galluogi mwy o bobl i gerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd ac, ynghyd â gwaith dylunio trefol da, gall gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd y cyhoedd, ansawdd aer a llesiant.

Bydd twf cynaliadwy yn cynnwys llunio strategaeth uchelgeisiol ar gyfer gwella bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd yn ein hardaloedd trefol. Bydd angen dod o hyd i atebion effeithiol ac arloesol sy'n seiliedig ar natur i'r heriau sy'n gysylltiedig â ffurf, dyluniad a dwysedd trefol er mwyn sicrhau'r manteision o ran llesiant sy'n deillio o fyw a gweithio mewn aneddiadau rhagorol sy'n gadarn at y dyfodol.


KOMATSU

Ym mhob rhan o Gymru, mae'r strategaeth hon yn cefnogi twf cynaliadwy. Nid oes gan unrhyw le heb swyddi, cartrefi, mannau cymunedol na bywyd gwyllt unrhyw obaith o gael cymuned, iaith Gymraeg nac economi ffyniannus na chydlynus. Mae'r fath beth â gormod o ddatblygu neu'r math anghywir o ddatblygu, ond dylai datblygu cynaliadwy feithrin poblogaeth sefydlog neu boblogaeth sy'n tyfu er mwyn sicrhau amgylchedd naturiol iach a sefydlogrwydd economaidd a chymdeithasol.

Mae'n rhaid i dwf a datblygiadau newydd fod yn y lle cywir, cael eu cyflawni yn y ffordd gywir a defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon er mwyn cyflawni Canlyniadau'r FfDC. Mae i'r strategaeth ofodol dair elfen sy'n nodi'r canlynol:

- ble yng Nghymru y dylid canolbwyntio twf
- sut y dylid cynllunio a rheoli twf
- sut y dylem bweru a chynhesu lleoedd gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwres rhanbarthol.



## Strategaeth Ofodol: Yr Ardaloedd lle bydd Cymru yn tyfu

Yn hanesyddol mae tueddiadau o ran y boblogaeth yng Nghymru wedi adlewyrchu'r amgylchiadau economaidd, gyda phobl yn cael eu denu i ardaloedd lle roedd swyddi ar gael. Dros y canrifoedd mae hyn wedi arwain at ddatblygu tri phrif glwstwr trefol o ddinasoedd a threfi, sef:

- Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd;
- Bae Abertawe a Llanelli;
- Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.

Mae pob un o'r ardaloedd trefol hyn yn wahanol yn economaidd ac maent yn cynnal amrywiaeth o fusnesau, mentrau a phrifysgolion ac yn cynnig ffyrdd o fyw diwylliannol gyfoethog i'w trigolion ac ymwelwyr. Maent yn lleoedd o bwys cenedlaethol a nod y strategaeth hon yw eu helpu i barhau i dyfu ac adfywio. O ganlyniad, bydd cyfleoedd gwaith a chynnydd tai newydd ar raddfa fawr yn digwydd yn bennaf, er nad yn llwyr, yn yr ardaloedd trefol hyn.


Y tu hwnt i'r prif ardaloedd trefol mae cymysgedd o drefi bach, pentrefi ac ardaeloedd gwledig eang. Mae llawer o drefi yn drefi marchnad yn draddodiadol ac maent yn dal i weithredu fel mannau ymgasglu i bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn lleoedd gwledig. Ar hyd yr arfordir mae ein trefi morol a'n trefi gwyliau yn dal i fod yn lleoedd poblogaidd i fyw ynddynt ac ymweld â nhw, er bod angen adfywio rhai lleoedd. Bydd gwaith datblygu mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig yn helpu i gyflawni dyheadau a diwallu anghenion pobl leol, gan ategu ymdrechion i dyfu ein dinasoedd a'n trefi yn hytrach na chystadlu â nhw.

Mae'r FfDC yn nodi amrywiaeth o ganolfannau rhanbarthol pwysig a ddylai, drwy bolisïau penodol mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol, gadw a gwella'r sail gwasanaethau masnachol a chyhoeddus sy'n eu gwneud yn ganolbwyntiau yn eu hardaloedd. Bydd hyn yn gymwys mewn lleoedd megis Caerfyrddin, trefi Hafan Sir Benfro, Aberystwyth, Llandrindod, y Drenewydd, Caernarfon, Bangor a'r trefi arfordirol o Landudno i Brestatyn.

Drwy ganolbwyntio twf ar raddfa fawr ar yr ardaloedd trefol gellir sianelu pwysau datblygu i ffwrdd oddi wrth gefn gwlad a diogelu tir amaethyddol cynhyrchiol. Mae ardaloedd gwledig yn chwarae rôl bwysig fel darparwr bwyd, ynni ac adnoddau mwynol. Mae cefnogaeth gref i gymunedau mewn ardaloedd gwledig; y nod yw sicrhau twf economaidd a chynnydd tai cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar gadw a denu pobl o oedran gweithio a chynnal a gwella mynediad at wasanaethau. Yn achos ardaloedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu tirwedd neu eu pwysigrwydd ecolegol, mae mesurau i'w diogelu rhag datblygiadau amhriodol yn dal i fod ar waith.

Mae'r strategaeth ofodol yn grymuso llunwyr polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau lleol i ddatblygu'r blaenoriaethau cenedlaethol drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a nodi meysydd a materion pwysig yn eu hardaloedd penodol.

# Strategaeth Ofodol



## Polisi 1 – Twf Trefol Cynaliadwy P1

**Dylai twf trefol helpu i greu trefi a dinasoedd sy'n gywasgedig ac wedi'u trefnu o amgylch canolfannau trefol a rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol integredig. Caiff datblygiadau dwysedd uwch â chymysgedd o ddefnydd a mynediad da at ganolfannau trefol a chanolfannau trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys gorsafoedd Metro newydd a gwell, eu hyrwyddo a'u cefnogi.**

### Strategaeth Ofodol: Cynllunio a rheoli twf

Rydym am i leoedd fod yn iach, yn ffyniannus, yn fywiog ac yn gydlynus a chefnogi llesiant. Bydd y ffordd rydym yn llunio lleoedd yn pennu sut rydym yn ymateb i heriau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac yn defnyddio ein hadnoddau. Mae'n bwysig bod lleoedd yn cael eu cynllunio'n dda a bod ganddynt strategaethau ar gyfer sicrhau y caiff ein hanghenion a'n gofynion eu diwallu a'u rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Mae lleoedd sydd wedi'u cynllunio'n gynaliadwy yn lleihau'r angen i deithio yn y car; yn annog pobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus; yn ymgorffori seilwaith gwyrdd; yn cymryd camau i sicrhau bod aer yn lân. Maent yn sicrhau bod cartrefi a busnesau wedi'u cysylltu â gwasanaethau hanfodol megis ynni, dŵr a band eang ac yn darparu mannau gwahanol ar gyfer ein holl weithgareddau bob dydd.



Mae cynllunio yn hanfodol i sicrhau lleoedd llwyddiannus y gellir byw ynddynt. Yn yr adran flaenorol gwnaethom nodi'r rhannau hynny o Gymru y caiff twf strategol ei ganolbwyntio arnynt. Mae'r adran hon, sy'n gymwys i bob rhan o Gymru, yn nodi sut y dylid cynllunio a rheoli'r twf hwn er mwyn creu lleoedd cynaliadwy.

#### Cefnogi ein hardaloedd trefol

P1 Mae dyheadau'r FfDC o ran twf yn gyfle i lunio a thyfu, adnewyddu ac adfywio ein dinasoedd a'n trefi a chreu lleoedd cynaliadwy, iach sy'n ymgorffori seilwaith gwyrdd. Mae Llywodraeth Cymru am weld trefi a dinasoedd sy'n gywasgedig ac wedi'u trefnu o amgylch canolfannau trefol a chanolfannau trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae dwysedd yn ffactor allweddol o ran llywio'r ffordd y mae lleoedd yn tyfu ac yn gweithredu. Mae datblygiadau dwysedd uwch yn defnyddio tir yn effeithlon, yn gofyn am lai o dir i'w ddatblygu ac yn diogelu ardaloedd gwledig rhag colli cefn gwlad. Mae dwyseddau uwch yn darparu'r dwysedd angenrheidiol o bobl a gweithgarwch i fywiogi strydoedd a mannau cyhoeddus, cefnogi strydoedd mawr a chynnal gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus da.

Mae gan drefi a dinasoedd llwyddiannus, iach gymysgedd cyfoethog o ddefnydd preswyl, defnydd masnachol a defnydd cymunedol sy'n agos at ei gilydd. Mae hyn yn creu gweithgarwch drwy gydol y dydd ac yn galluogi pobl i deithio a beicio i'r ysgol, y gwaith neu'r siopau, yn hytrach na dibynnu ar deithio yn y car.

Dylai dwysedd datblygiad a'r cymysgedd o ddefnydd sy'n gysylltiedig ag ef adlewyrchu'r safle a chyd-destun ehangach yr ardal, yn enwedig pa mor agos ydyw at ganolfan drefol a hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd yr amrywiaeth hon yn golygu bod gan ardaloedd gwahanol nodweddion gwahanol, gan gynnwys rhai ardaloedd bywiog a phrysur a rhai ardaloedd tawelach a mwy diarffordd, a fydd yn creu lleoedd sy'n darparu ar gyfer ffyrdd amrywiol o fyw. Fodd bynnag, mae datblygiadau dwysedd isel ag un swyddogaeth mewn ardaloedd sydd â'r potensial ar gyfer dwyseddau uwch ac amrywiaeth ehangach o ddefnydd, yn colli'r cyfle i alluogi mwy o bobl i fyw yn agosach at ganolfannau trafnidiaeth, swyddi a gwasanaethau a chyrchfannau diwylliannol ac yn methu â chreu lleoedd mwy cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo Datblygu a Arweinir gan Gludiant, sy'n cynnwys datblygiadau cywasgedig dwysedd uwch sydd â chymysgedd o ddefnydd o amgylch coridorau trafnidiaeth a gorsafoedd. Mae prosiectau Metro, sydd ar wahanol gamau

## Polisi 2 – Cefnogi Canolfannau Trefol P2

**Dylid lleoli cynigion ar gyfer cyfleusterau gwasanaethau cyhoeddus o faint sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd. Rhaid defnyddio dull dilyniannol o asesu dyraniadau cynlluniau datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid cymeradwyo cyfleusterau gwasanaethau cyhoeddus o faint sylweddol y tu allan i ganol trefi a dinasoedd.**

datblygu, oll yn cynnig cyfleoedd pwysig ac amserol i nodi lleoliadau ar gyfer Datblygiadau a Arweinir gan Gludiant o amgylch gorsafoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae tir sy'n agos at orsafoedd Metro ac sydd â mynediad da atynt yn adnodd pwysig y mae terfyn iddo a bydd yn chwarae rhan allweddol o ran creu lleoedd trefol cynaliadwy.

Er mwyn darparu'n llwyddiannus ar gyfer datblygiadau dwysedd uwch mae angen gwaith cynllunio da ac ymrwymiad i ragoriaeth ym maes dylunio trefol. Nid yw dwysedd uchel o reidrwydd yn golygu adeiladau uchel iawn ac ni ddylid ei gyflawni drwy wasgu tai o gynllun safonol yn agosach at ei gilydd neu drwy leihau gofod byw mewnol. Gall atebion trefol i gynllun a dyluniad datblygiadau, gyda ffurfiau cywasgedig ar ddatblygiad, integreiddio dwyseddau uwch mewn ffyrdd sy'n creu lleoedd bywiog, gyda thir cyhoeddus o ansawdd uchel ac ansawdd bywyd da. Bydd ymgorffori seilwaith gwyrdd, yn arbennig, yn gofyn am atebion dylunio arloesol er mwyn sicrhau manteision ehangach o ran llesiant.

Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i drefi a dinasoedd â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da ledled Cymru. Maent yn raddadwy, gyda'r diffiniad o ddwysedd uwch a datblygiad defnydd cymysg yn amrywio mewn lleoedd gwahanol. Caiff canllawiau pellach eu llunio er mwyn helpu i roi'r polisi ar waith mewn gwahanol rannau o Gymru.

P2 Mae egwyddor 'canol trefi yn gyntaf' wedi hen ymsefydlu mewn polisi cynllunio mewn perthynas â datblygiadau manwerthu. Fodd bynnag, gall gwaith cynllunio da ein helpu i ailystyried dyfodol canol trefi a dinasoedd, sy'n symud i ffwrdd o'u rolau manwerthu traddodiadol. Maent yn dal i fod yn ganolbwyntiau pwysig i gymunedau ac, yn fwyfwy, maent yn dod yn lleoedd i fyw a gweithio ynddynt, yn ganolfannau gweithgarwch cymunedol a diwylliannol ac yn ffocws i wasanaethau cyhoeddus megis iechyd ac addysg.

Mae cyfleusterau gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys ysbytai, cyfleusterau gofal iechyd sylfaenol, llyfrgelloedd, prifysgolion a cholegau ac unrhyw adeilad sy'n eiddo i sefydliad yn y sector cyhoeddus sy'n denu cryn nifer o weithwyr ac ymwelwyr. Dylai awdurdodau cynllunio lleol trefol a gwledig fod yn hyderus wrth ddiffinio'r hyn sy'n gyfystyr â datblygiad 'o faint sylweddol' ar gyfer eu hardal gellir llunio diffiniadau priodol drwy ddeall math o ddatblygiadau y gall ardal eu disgwyl a'u maint yn ogystal ag ansawdd y gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus y byddant yn dibynnu arnynt, a thrwy ymgynghori'n lleol.

### Buddsoddiad cyhoeddus a thir

Gall buddsoddiad gan y sector cyhoeddus a'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud ynghylch ei dir wneud cyfraniad mawr at lunio lleoedd. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach arwain y ffordd wrth lunio lleoedd cynaliadwy. Mae gwasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus yn ganolog i'n bywydau ac maent yn cefnogi cymdeithas orau pan fyddant yn hygyrch i bawb.

Mae adeiladau a chyfleusterau cyhoeddus mawr yn gwasanaethu poblogaethau mawr, yn aml ymhell y tu hwnt i ffiniau'r anheddiad. Mae'r rhain yn cynnwys ysbytai cyffredinol, adeiladau mawr o eiddo'r llywodraeth, swyddfeydd cynghorau, canolfannau trafnidiaeth, colegau a phrifysgolion. Gall datblygiadau llai o faint sy'n gwasanaethu rhan o ddinas neu dref, gan gynnwys ysgolion a

## Polisi 3 – Buddsoddiad cyhoeddus, Adeiladau Cyhoeddus a Thir Cyhoeddus P3

**Bydd buddsoddiadau a daliadau tir Llywodraeth Cymru yn helpu i greu lleoedd cynaliadwy. Byddwn yn gweithio gyda phob perchennog tir cyhoeddus a buddsoddwyr er mwyn sicrhau y caiff datblygiadau newydd o faint sylweddol eu lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd y gellir eu cyrraedd ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.**

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol adolygu tir cyhoeddus, sy'n segur ac sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, er mwyn nodi safleoedd posibl i'w datblygu a'u hailddatblygu, gan gynnwys ar gyfer defnydd cymysg a datblygiadau tai fforddiadwy a fydd yn helpu i greu lleoedd cynaliadwy.**

meddygfeydd, fod yn fwy priodol mewn lleoliadau hygyrch mewn cymdogaethau, yn enwedig mewn canolfannau lleol neu'n agos atynt, lle y gallant ddiwallu anghenion cymunedau yn well.

P3 Mae Polisi P3 yn gymwys i ddatblygiadau mawr sy'n creu teithiau megis stadia chwaraeon, cyfleusterau gwasanaethau cyhoeddus, lleoliadau diwylliannol a mannau arddangos a allai lywio gweithgarwch adfywio sy'n aml yn dibynnu ar arian cyhoeddus.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu bod gan bob corff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd i gyflawni'r nodau llesiant. Bydd hyn yn gofyn am ystyried goblygiadau ehangach penderfyniadau ynghylch gwerthu, ailddefnyddio a datblygu tir cyhoeddus.

Wrth asesu cost neu werth unrhyw gynllun arfaethedig i ddatblygu tir cyhoeddus, naill ai gan y sector cyhoeddus neu ar ôl i'r tir gael ei werthu i barti yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus, dylid ystyried yr holl gostau posibl. Mae'r rhain yn cynnwys costau i'r amgylchedd, nodau o ran newid yn yr hinsawdd a chymdeithas ehangach. Bydd datblygiad mewn lleoliad anghynaliadwy, sy'n cynyddu nifer y teithiau car, sy'n cael ei wasanaethu'n wael gan drafnidiaeth gyhoeddus, sy'n anhygyrch i'r aelodau lleiaf symudol neu dlotaf o gymdeithas ac nad yw'n cyfrannu at gefnogi canol trefi a dinasoedd bywiog, yn cael effeithiau negyddol ar y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae derbyniad cyfalaf byrdymor neu gost ddatblygu is yn annhebygol o wrthbwyso'r costau tymor hwy hyn.

Dylai Llywodraeth Cymru, adrannau Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol a thirfeddianwyr cyhoeddus eraill gynnal adolygiadau strategol o'u daliadau tir yng Nghymru ac ystyried Canlyniadau'r FfDC a'r strategaeth ofodol. Lle y gallai tir cyhoeddus helpu i greu lleoedd cynaliadwy, dylid rhoi ystyriaeth gadarnhaol i'r defnydd a wneir o'r tir hwn yn y dyfodol a ph'un a allai, er enghraifft, gynnal datblygiadau defnydd cymysg newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy a gweithgareddau masnachol newydd, neu seilwaith trafnidiaeth.

### Cefnogi ein hardaloedd gwledig

Mae rhannau helaeth o Gymru yn wledig eu natur. Mae ardaloedd gwledig yn denau eu poblogaeth ond maent yn gartref i un o bob tri unigolyn yng Nghymru ac yn hanfodol i iechyd a bywoliaeth ein gwlad. Fel ein canolfannau trefol, mae ardaloedd gwledig yn amrywiol gyda chymunedau ffyniannus a difreintiedig, busnesau arloesol, adnoddau hanfodol a hanes a diwylliannau unigryw. Maent yn denu ymwelwyr i Gymru o bob cwr o'r byd ac yn chwarae rôl bwysig o ran diwallu anghenion o ran dŵr, bwyd ac ynni. Maent hefyd yn cynnwys lleoedd lle y siaredir Cymraeg fel prif iaith y gymuned.

Mae'n bwysig rhoi lle blaenllaw i'r heriau a wynebir gan yr economi wledig, yn enwedig y sector amaethyddol, wrth ystyried dyfodol ardaloedd gwledig a bod y system gynllunio yn gallu ymateb i'r heriau hyn, gan hwyluso datblygiadau newydd a chyfleoedd arallgyfeirio priodol.

## Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig P4

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a thwf cymesur priodol mewn trefi a phentrefi gwledig.**

**Mae'n well cynllunio dyfodol ardaloedd gwledig ar lefel ranbarthol a lleol. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cymunedau gwledig o ran tai, trafnidiaeth, busnesau, gwasanaethau ac arallgyfeirio yn y sector amaethyddol.**

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol sicrhau bod swyddi, gwasanaethau a seilwaith cymdeithasol o faint priodol ar gael i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Dylent gefnogi ardaloedd gwledig cryf a gwydn, gyda fframwaith cadarnhaol ar gyfer datblygu economaidd, arallgyfeirio a diwallu anghenion tai lleol. Mae'n rhaid i benderfyniadau gofodol strategol sicrhau y caiff anghenion y boblogaeth wledig wasgaredig eu diwallu.

P4 Mae trefi gwledig yn hanfodol i'r ardaloedd o'u hamgylch a dylid eu cefnogi. Mae'n bwysig bod gan gymunedau gwledig fynediad priodol at farchnadoedd gwaith a marchnadoedd economaidd ehangach, a dylai penderfyniadau ynghylch datblygu economaidd rhanbarthol a seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau ystyried anghenion pob rhan o Gymru. Mae hefyd yn bwysig bod cymunedau gwledig yn gallu datblygu economïau cryfach a chefnogi mentergarwch. Mae economïau gwledig cryf yn cefnogi cymunedau cryf a gwydn ac yn gallu lleihau'r angen i deithio a'r ddibyniaeth ar nifer fach o ganolfannau economaidd mwy o faint. Dylid rhoi blaenoriaeth i weithgareddau economaidd sydd â chysylltiadau cryf ag ardaloedd gwledig, gan gynnwys prosesu bwyd a diodydd, cynhyrchu ynni, twristiaeth a hamdden, yr economi amgylcheddol a busnesau sy'n atodol i ffermio, coedwigaeth a gweithgareddau economaidd gwledig eraill. Mae'r ddarpariaeth band eang well yng Nghymru wledig yn cefnogi sail busnesau fwyfwy amrywiol.

Ni ddisgwylir i boblogaeth ardaloedd gwledig Cymru dyfu'n sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru am i ardaloedd gwledig gynnal eu hunain a diwallu anghenion y rhai sy'n byw yno ac mae hefyd am i'r Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a gaiff eu llunio mewn ardaloedd gwledig ddatblygu polisïau cryf ac uchelgeisiol sy'n cefnogi ardaloedd gwledig. Lle mae'r cynlluniau hyn yn nodi twf mewn aneddiadau gwledig, caiff hyn ei gefnogi lle y bo'n briodol, mewn ffordd sy'n gymesur ag anghenion yr anheddiad a'r ardal wledig ehangach a wasanaethir ganddynt a lle mae wedi cael ei gynllunio drwy broses ymgynghorol y cynllun datblygu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Wrth baratoi cynlluniau datblygu a phenderfynu ar gynigion drwy'r Broses Rheoli Datblygu, dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fod yn hyderus wrth nodi pa ardaloedd sy'n rhai 'gwledig' yng nghyd-destun y polisi hwn. Mae lleoliad gwledig sy'n agos at yr ardaloedd trefol mawr yn wynebu set wahanol o broblemau o ran cael gafael ar dai, gwaith a gwasanaethau iechyd, addysg a thrafnidiaeth hanfodol o gymharu â lleoliad gwledig yng nghanolbarth Cymru ac efallai na fydd yn briodol rhoi polisi sy'n canolbwyntio ar ardaloedd gwledig ar waith i'r un graddau yn y ddau fath o leoliad. Drwy ddeall daearyddiaeth ardal a'r problemau y mae'n eu hwynebu a pharatoi cynlluniau datblygu, gellir llunio diffiniadau priodol.

Mae pob un o'r polisïau yn yr adran hon ar gefnogi canolfannau trefol, cyflenwi tai fforddiadwy, cefnogi cymunedau drwy ddefnyddio tir cyhoeddus, parthau gweithredu ar ffonau symudol a darparu seilwaith gwefru cerbydau trydanol, yn gymwys i ardaloedd gwledig Cymru. Dylid ystyried eu bod yn faterion â blaenoriaeth ar gyfer llunio Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ledled Cymru gyfan.

**Darparu Cartrefi Fforddiadwy**

Mae darparu tai yng Nghymru ar lefelau sy'n diwallu ein hanghenion yn flaenoriaeth. Mae darlun cymhleth o ddarpariaeth ac mae'r cyfleoedd sydd gan bobl yn amrywio yn dibynnu ar incwm a ble maent yn byw yng Nghymru.


Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystod o 'Amcangyfrifon o anghenion tai yng Nghymru' yn seiliedig ar wahanol senarios demograffig.  Mae'r amcangyfrif canolog yn awgrymu fod angen 114,000 o gartrefi ychwanegol ledled Cymru hyd at 2038. Yn ystod y pum mlynedd gyntaf (2018/19 i 2022/23) amcangyfrifir y bydd angen 8,300 o gartrefi ychwanegol ar gyfartaledd yn flynyddol, gyda mwy na hanner (57%) y cartrefi hyn yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae angen bron i chwarter (24%) yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru a 19% yng Ngogledd Cymru.

Mae'r amcangyfrifon hyn hefyd yn dangos y dylai'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy fod yn ffocws allweddol ar gyfer darparu tai. Amcangyfrifir, o dan yr amcangyfrif canolog, y dylai 47% o gartrefi ychwanegol ar gyfartaledd fod yn dai fforddiadwy (tai cymdeithasol neu rent canolradd) drwy gydol 2018/19 i 2022/23, gyda'r 53% sy'n weddill yn dai marchnad. Mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o tua 3,900 o gartrefi fforddiadwy a 4,400 o gartrefi marchnad bob blwyddyn dros y cyfnod o bum mlynedd.

Dangosir graddfa'r her ynghylch tai yn y siart isod, sy'n profi nad yw'r cyflenwad o gartrefi newydd dros y deng mlynedd diwethaf wedi cyrraedd lefel y cartrefi ychwanegol y mae eu hangen, yn ôl yr amcangyfrifon dros y pum mlynedd nesaf. Er mwyn mynd i'r afael â'r 'bwlch cyflenwi' a'r angen am dai yng Nghymru, mae angen newid y model cyflenwi drwy adeiladu cartrefi fforddiadwy



**Cyflenwad cartrefi newydd 1974-2018: Cymru**




*Ffynhonnell: Mae gwybodaeth am anheddau newydd yn ôl deiliadaeth yng Nghymru fesul blwyddyn ariannol yn seiliedig ar adroddiadau arolygwyr adeiladu awdurdodau lleol a'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol (NHBC). Weithiau mae'n anodd i arolygwyr rheoli adeiladu sy'n cofnodi'r data i nodi deiliadaeth derfynol arfaethedig yr eiddo (sail y wybodaeth daliadaeth). Gall hyn arwain at dan-gyfrif o adeiladu tai newydd y sector cymdeithasol a gor-gyfrif ar gyfer y sector preifat. Felly'r dylid trin gwybodaeth y ddeiliadaeth yn ofalus.*

## Polisi 5 – Cyflenwi Cartrefi Fforddiadwy P5

**Bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a gyflenwir drwy sicrhau y caiff cyllid ar gyfer cartrefi fforddiadwy ei ddyrannu a'i ddefnyddio'n effeithiol.**

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ddatblygu fframweithiau polisi cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflenwi tai fforddiadwy, gan gynnwys gosod targedau ar gyfer cynlluniau datblygu yn seiliedig ar amcangyfrifon rhanbarthol o'r angen am dai ac asesiadau lleol. Mewn ymateb i anghenion lleol a rhanbarthol, dylent nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy ac ystyried pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.**

---

ar raddfa fawr ac yn gyflym. Mae'r bwlch wedi ehangu ers i fwy o ddibyniaeth gael ei rhoi ar y sector cyhoeddus i fynd i'r afael â'r angen dynol sylfaenol hwn. Er mwyn mynd i'r afael â hyn byddwn yn cefnogi dull gweithredu mwy cytbwys gyda awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a busnesau adeiladu Bach a Chanolig yn cael eu hannog i adeiladu mwy o gartrefi. Bydd ailddefnyddio tir cyhoeddus yn bwysig i gyflenwi'r cartrefi hyn.

P5 Mae gan y system gynllunio rôl hirsefydlog o ran cyflenwi tai fforddiadwy. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod tai newydd yn diwallu anghenion pob aelod o gymdeithas, yn enwedig y rhai na allant fforddio prynu tŷ yn y farchnad agored. Mae lleoedd cynaliadwy yn gynhwysol ac yn croesawu pawb; nid ydynt yn allgáu rhannau o'r gymuned nac yn creu getoau o'r cyfoethog a'r tlawd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynyddu nifer y tai fforddiadwy a gyflenwir yn yr ardaloedd lle mae eu hangen a bydd yn defnyddio ei chyllid, ei thir, ei pholisïau cynllunio a thai i lywio'r gwaith o'u cyflenwi. Rydym yn cydnabod bod fforddiadwyedd tai yn amrywio ledled Cymru ac y bydd angen ymatebion gwahanol mewn rhannau gwahanol o Gymru er mwyn diwallu anghenion cymunedau lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phawb sy'n ymwneud â chynllunio a chyflenwi tai fforddiadwy, gan gynnwys y rhai yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, er mwyn cyflawni'r nodau hyn.

## Polisi 6 – Cynllunio mewn Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol P6

**Mewn Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol, bydd awdurdodau cynllunio lleol a gweithredwyr telathrebu yn cydweithio i wella signal ffonau symudol gan nodi safleoedd ac adeiladau addas ar gyfer cyfarpar a seilwaith newydd.**

**Rhoddir cryn bwys ar yr angen i wella signal ffonau symudol a chynyddu'r manteision economaidd sy'n gysylltiedig â hynny. Felly, ceir rhagdybiaeth o blaid seilwaith telathrebu symudol newydd, ar yr amod na fydd yn cael unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar y dirwedd.**

## Polisi 7 – Cerbydau Allyriadau Isel iawn P7

**Mae Llywodraeth Cymru o blaid cynyddu'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, y sector ynni a busnesau i gynllunio ar gyfer cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trafnidiaeth ac wedyn eu cyflwyno, gan gynnwys creu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cyflym er mwyn i gerbydau trydanol allu teithio pellteroedd hwy ledled Cymru.**

---

**Technoleg sy'n Newid: Cyfathrebu Symudol**

Mae ffonau symudol yn adnodd hanfodol yn ein bywydau bob dydd. Yn ogystal â gwneud galwadau ffôn, i lawer ohonom dyma'r ffordd rydym yn defnyddio'r cyfryngau, yn anfon ac yn derbyn negeseuon e-bost, yn cael gafael ar wasanaethau a gwybodaeth ac yn mwynhau adloniant. Maent bellach yn cael eu defnyddio i wneud taliadau, trefnu cludiant, archebu bwyd a siopa a chadw mewn cysylltiad ag ysgolion, gwasanaethau cyhoeddus a chyflogwyr. Mae signal ffonau symudol da yn bwysig i lesiant economaidd a chymdeithasol.

P6 Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod gan bob rhan o Gymru y seilwaith telathrebu sydd ei angen arni. Byddwn yn nodi Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol, gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle nad oes llawer o signal ar hyn o bryd os o gwbl a lle mae galw am seilwaith newydd, er mwyn darparu ffocws ar gyfer ein camau gweithredu. Byddwn yn gweithio gyda gweithredwyr rhwydweithiau dyfeisiau symudol, darparwyr seilwaith ac awdurdodau lleol i wella cysylltedd digidol yn y Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol a nodir gennym.

**Technoleg sy'n Newid: Cerbydau Allyriadau Isel Iawn**

Bydd lleoedd cynaliadwy yn helpu i leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a hyrwyddo newid moddol i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae newid o gerbydau petrol a diesel i gerbydau allyriadau isel iawn (gan gynnwys cerbydau trydanol) hefyd yn hanfodol i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau carbon.

P7 Mae'n bwysig ein bod yn cynllunio ac yn darparu'r seilwaith, ac yn arbennig y seilwaith gwefru, y bydd cerbydau trydanol yn dibynnu arno. Rydym yn disgwyl i fusnesau a diwydiant lywio cryn dipyn o'r gwaith o gyflwyno seilwaith gwefru. Mae gan y sector cyhoeddus rôl bwysig i'w chwarae hefyd a bydd Llywodraeth Cymru yn nodi strategaeth ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydanol. Byddwn yn adolygu'n barhaus pa mor gyflym y mae seilwaith gwefru yn cael ei ddarparu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac ym mha rannau o'r wlad y mae'n cael ei ddarparu, er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw rannau o Gymru eu gadael ar ôl wrth newid i gerbydau trydanol.

Mae newidiadau mewn technoleg trafnidiaeth hefyd yn cynnig cyfle i newid y ffordd rydym yn teithio. Mae'n anochel y bydd dyfodiad ceir diyrrwr yn cyflwyno heriau a chyfleoedd newydd ac, yn y dyfodol, gallai drawsnewid y cysyniadau presennol o berchenogaeth ceir preifat yn llwyr, yn enwedig yn ein hardaloedd trefol mawr ac yn agos atynt.

## Polisi 8 – Fframwaith strategol ar gyfer gwella bioamrywiaeth a sicrhau bod ecosystemau yn wydn P8

**Er mwyn gwella bioamrywiaeth a sicrhau bod ecosystemau yn fwy gwydn, bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol yn nodi'r canlynol:**

- **ardaloedd y gellid eu diogelu fel rhwydweithiau ecolegol am y gallent fod yn bwysig o ran addasu i newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill, o ran adfer neu greu cynefinoedd, neu sy'n darparu gwasanaethau ecosystemau allweddol, er mwyn sicrhau na fydd gwaith datblygu yn y dyfodol yn amharu'n ormodol arnynt.**
- **cyfleoedd lle y gellid manteisio i'r eithaf ar seilwaith gwyrdd strategol fel rhan o gynigion datblygu, lle mae angen defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur fel dull allweddol o sicrhau twf cynaliadwy, cysylltedd ecolegol, cydraddoldeb cymdeithasol a llesiant y cyhoedd.**

**Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys y safleoedd hyn yn strategaethau a pholisïau eu cynlluniau datblygu er mwyn hyrwyddo a diogelu'r swyddogaethau a gyflawnir ganddynt a'r cyfleoedd a gynigir ganddynt.**

**Ym mhob achos, dylai camau gweithredu cronnol tuag at wella bioamrywiaeth a gwneud ecosystemau yn fwy gwydn gael eu dangos fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol seiliedig ar natur o gynllunio safleoedd a dylunio'r amgylchedd adeiledig.**

---

### Cefnogi Seilwaith Gwyrdd Strategol

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau bod ein hecosystemau yn fwy gwydn. Ar y cyd â'n partneriaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol, byddwn yn cymryd camau strategol i wella bioamrywiaeth, diogelu rhwydweithiau ecolegol a gwneud y defnydd gorau posibl o seilwaith gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur. Fel arfer, mae camau gweithredu yn fwyaf effeithiol pan gânt eu cymryd ar lefel ranbarthol neu leol gan adlewyrchu cyfleoedd unigol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi amrywiaeth o bolisïau i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, gan gynnws dull 'stepwise'. Mae ffocws strategol y FfDC ar dwf trefol yn golygu y bydd angen rhoi mwy o bwyslais ar wella bioamrywiaeth er mwyn sicrhau bod y dull gweithredu yn gynaliadwy.

P8 Mae angen inni ehangu ein safleoedd dynodedig a chreu cysylltiadau rhyngddynt er mwyn cynyddu gallu rhywogaethau ac ecosystemau i addasu i bwysau newid yn yr hinsawdd a llygredd. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried sut mae safleoedd dynodedig yn cyd-fynd â'r rhwydwaith ehangach o gynefinoedd ac asesu pa gamau sydd angen eu cymryd i ddiogelu tir y gallai fod ei angen i gysylltu neu ymestyn y safleoedd hynny er mwyn cyfrannu at eu gwydnwch hirdymor a gwydnwch ehangach rhwydweithiau ecolegol neu ddiogelu a gwella gwasanaethau ecolegol.

Bwriedir i fesurau diogelwch sicrhau na fydd gwaith datblygu yn amharu'n ormodol ar ddarnau o dir a allai fod yn bwysig o ran ymestyn neu gysylltu rhwydweithiau ecolegol ac addasu i newid yn yr hinsawdd neu bwysau eraill, neu sy'n darparu gwasanaethau ecolegol allweddol. Nid yw mesurau diogelwch o reidrwydd yn gwahardd datblygu, ond maent yn nodi gofyniad i ystyried anghenion tir hirdymor y cynefinoedd a'r rhywogaethau y bwriedir iddynt eu diogelu a'u gwella yn y dyfodol, a gwasanaethau a swyddogaethau ecosystemau penodol sydd eu hangen nawr ac y rhagwelir y bydd eu hangen yn y dyfodol. Gall ardaloedd gael eu diogelu am nifer o resymau, gan gynnwys yr angen i wneud mathau penodol o gynefinoedd yn fwy gwydn neu wella eu cysylltedd, megis dolydd sy'n cynnwys llawer iawn o rywogaethau.

Dylai awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru gydweithio er mwyn sicrhau y caiff camau priodol eu cymryd i ddiogelu safleoedd o fewn eu ffiniau gweinyddol a thu hwnt iddynt. Dylid nodi ardaloedd sy'n cael eu diogelu drwy'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd a'u cynnwys yn y cynllun datblygu.

### Seilwaith gwyrdd strategol mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch

Mae ecosystemau trefol yn chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi lles corfforol a meddyliol. Mae cysylltiadau cadarnhaol pwysig rhwng lles meddyliol a hygyrchedd mannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol, ac rydym yn cael budd nid yn unig o fod yn fwy egnïol ond hefyd drwy fod mewn mannau gwyrdd ac yn agos atynt. Gall hyd yn oed rai mannau gwyrdd agored mewn ardaloedd trefol dwys ddod â manteision i nifer fawr o bobl, ar yr amod eu bod o ansawdd uchel ac yn hygyrch.

Wrth i boblogaeth Cymru ddod yn fwyfwy trefol, yr ardaloedd hyn a fydd yn cynnig y cyfle gorau i sicrhau'r manteision mwyaf o ran llesiant a all ddeillio o ecosystemau. Drwy ddefnyddio atebion seiliedig ar natur mewn ffordd arloesol a chynyddu seilwaith gwyrdd sydd wedi'i integreiddio'n dda mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch, gall gwaith datblygu adfer nodweddion a phrosesau naturiol mewn dinasoedd a thirweddau, cynnal a gwella gweithrediad strategol ein hadnoddau naturiol a'n rhwydweithiau ecolegol, a darparu mannau a choridorau gwyrdd o ansawdd uchel sy'n hygyrch yn lleol.



### Mapio Seilwaith Gwyrdd Strategol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio mapiau dangosol i ddangos themâu bioamrywiaeth cenedlaethol. Maent yn fan cychwyn ar gyfer ystyried gwelliannau fel rhan o asesiadau seilwaith gwyrdd ac yn ffordd o sicrhau y caiff camau cronnol eu cymryd er mwyn sicrhau gwelliant drwy gynigion datblygu.

Bydd Datganiadau Ardal yn datblygu'r dull hwn o weithredu drwy nodi heriau a chyfleoedd allweddol i atgyfnerthu rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystemau. Byddant yn darparu sail tystiolaeth leol a mapiau o themâu amgylcheddol allweddol ac yn nodi ardaloedd lle y gall cymryd camau ar y raddfa gywir sicrhau'r manteision mwyaf. Mae unrhyw ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a nodir mewn Datganiadau Ardal yn ystyriaeth gynllunio berthnasol a dylai cynlluniau datblygu nodi polisïau priodol i ddiogelu a chysylltu'r ardaloedd hyn a gwarchod a gwella eu swyddogaethau a'u nodweddion ecolegol allweddol a nodwyd.

Gall ymyriadau rhanbarthol a lleol, ar y cyd, gyfrannu at wneud ein rhwydweithiau ecolegol cenedlaethol yn fwy gwydn. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol nodi strategaethau sy'n cyfrannu at gyflawni'r nodau hyn drwy eu hasesiadau seilwaith gwyrdd a llunio ymateb polisi priodol yn eu cynllun datblygu.

Mae coetiroedd yn sicrhau amrywiaeth eang o fanteision i gymdeithas, o leihau allyriadau carbon a'r perygl o lifogydd mewn lleoliadau sensitif i ddarparu lleoedd ar gyfer hamdden egnïol, addysg a dysgu gydol oes ac maent yn dod yn fwyfwy pwysig fel adnoddau cymunedol. Mae ein coedwigoedd yn cynnal llawer o weithgareddau a sectorau economaidd ac mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae wrth ddisodli tanwyddau ffosil, storio carbon a'n helpu i ymdopi ag effeithiau hinsawdd sy'n newid. Mae'r 'goeden gywir yn y lle cywir' yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau'r manteision hyn.

## Polisi 9 – Y goedwig genedlaethol P9

**Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu coedwig genedlaethol a bydd yn nodi safleoedd a dulliau cyflawni priodol er mwyn cyflawni'r nod hwn. Caiff camau gweithredu i ddiogelu lleoliadau ar gyfer y goedwig genedlaethol eu cefnogi.**

Mae angen cynyddu'r gorchudd coetir er mwyn gwneud ein hecosystemau yn fwy gwydn, cyflawni ein dyheadau o ran newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio a sicrhau y cynhelir potensial cynhyrchiol coetiroedd Cymru.

P9 Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gynyddu'r gorchudd coetir yng Nghymru o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn o 2020 ymlaen. Bydd coedwig genedlaethol yn helpu i gyflawni'r targed hwn a gwella llesiant i bobl a chymunedau.

Bydd y goedwig yn ased cenedlaethol a allai ddarparu swyddi yn y sector coed, y sector hamdden, y sector twristiaeth a sectorau eraill. Mae'n debygol o fod wedi'i gwasgaru rhwng nifer o leoliadau a gallai weithredu fel catalydd ar gyfer gwella tir sydd angen ei adfer. Dylai unrhyw safleoedd neu gynigion datblygu, y mae angen cael caniatâd cynllunio ar eu cyfer ac sy'n rhan o'r prosiect hwn, gael eu cefnogi lle y bo'n briodol. Mae cyfle i'r goedwig genedlaethol gael ei chysylltu gan seilwaith gwyrdd sy'n ymgorffori cyfleusterau teithio llesol a dod yn ased pwysig i bobl leol a thwristiaid.

## Strategaeth ofodol: Pweru a chynhesu lleoedd gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy a Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol

Mae'r strategaeth ofodol yn darparu cyd-destun a fframwaith hirdymor ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith ac mae diogelu'r amgylchedd yn rhoi cryn bwyslais ar y gofyniad i wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau.

Er mwyn datblygu ein trefi a'n dinasoedd bydd angen ynni glân a dull effeithlon o gyflenwi gwres a phŵer i gartrefi a gweithleoedd. Mae'r adran hon yn nodi goblygiadau gofodol ein hanghenion ynni a gwres.

### Ynni Adnewyddadwy

Mae Cymru yn cynnig cryn nifer o gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fanteisio i'r eithaf ar y potensial hwn. Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn rhan allweddol o'n hymrwymiad i ddatgarboneiddio a mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd.

Rydym wedi gosod y targedau uchelgeisiol canlynol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, sef:

- Bydd Cymru yn cynhyrchu 70 y cant o'r trydan y mae'n ei ddefnyddio gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy erbyn 2030.
- Bydd un gigawat o ynni adnewyddadwy yn cael ei gynhyrchu'n lleol erbyn 2030.
- Bydd gan brosiectau ynni adnewyddadwy newydd o leiaf un elfen o berchnogaeth leol.

Ystyrir bod cynigion ar gyfer datblygiadau ynni mawr yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu arnynt. Awdurdodau cynllunio lleol sy'n penderfynu ar gynigion islaw'r trothwy ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae datblygiadau ynni mawr yn cynnwys:


- Pob fferm wynt ar y tir sy'n cynhyrchu mwy na 10 megawat.
- Safleoedd ynni adnewyddadwy eraill sy'n cynhyrchu rhwng 10 megawat a 350 megawat.

Ein blaenoriaeth ofodol yw bod datblygiadau gwynt a solar mawr yn cael eu cyfeirio at yr Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Gwynt ac Ynni Solar a ddangosir ar dudalen 42. Ceir rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar mawr ar y tir yn yr ardaloedd hyn, derbynnir egwyddor newid tirwedd a chanolbwyntir ar sicrhau'r manteision mwyaf a lleihau'r effeithiau cymaint â phosibl. Caiff cymunedau eu diogelu rhag effeithiau cronnol sylweddol er mwyn osgoi sefyllfaoedd annerbyniol lle y gallai aneddiadau llai o faint, er enghraifft, gael eu hamgylchynu, o bosibl, gan gynlluniau gwynt mawr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei hysgogiadau polisi er mwyn helpu i gyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy yn yr ardaloedd hyn. Bydd datblygu Ardaloedd â Blaenoriaeth yn helpu i gydgysylltu camau gweithredu strategol, gan ddod â màs critigol o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy newydd ynghyd i lunio'r achos dros seilwaith grid newydd neu atgyfnerthedig. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol er mwyn helpu i fanteisio ar botensial yr ardaloedd hyn ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a sicrhau bod cymunedau yn cael y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a all ddeillio ohonynt.

## Mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull gweithredu clir sy'n seiliedig ar oleuadau traffig ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy gwynt a solar mawr.


Mae'r technolegau hyn yn ddichonadwy ac yn gyflawnadwy ac mae ganddynt gryn botensial i wneud cyfraniadau cadarnhaol at gyflawni ein targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy yn y byrdymor i'r tymor canolig:



**COCH:** Nid yw datblygiadau ynni gwynt nac ynni solar mawr ar y tir yn briodol mewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**MELYN:** Ardaloedd nad ydynt o fewn yr Ardaloedd â Blaenoriaeth. Ni chaiff y rhain eu cefnogi'n benodol gan Lywodraeth Cymru a phenderfynir ar gynigion ar sail eu rhinweddau unigol.

**GWYRDD:** Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt lle y ceir rhagdybiaeth o blaid datblygu a lle y derbynnir egwyddor newid tirwedd.



Gall datblygiadau ynni adnewyddadwy gwynt a solar mawr fod yn amlwg iawn. Nododd adolygiad strategol o'r effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol mai'r Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt yw'r lleoliadau mwyaf priodol i wneud newidiadau i'r dirwedd. Felly, derbynnir egwyddor newid tirwedd yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r broses o gynllunio a microleoli cynigion leihau'r effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol, yn enwedig cynigion sy'n agos at ardaloedd adeiledig.

## Polisi 10 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth P10

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar mawr yn yr Ardaloedd â Blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt. Ceir rhagdybiaeth o blaid datblygu ar gyfer y cynlluniau hyn ac, o ganlyniad, derbynnir egwyddor newid tirwedd.**

**Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar mawr ar y tir mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth, rhoddir cryn bwys ar gyfraniad y cynnig at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyflawni ein targedau ar gyfer datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy.**

**Mae'n rhaid i geisiadau cynllunio ddangos sut mae'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol *mwyaf wedi'u sicrhau* i'r gymuned leol a sut mae'r effeithiau andwyol canlynol wedi'u lleihau cymaint â phosibl:**

- **yr effaith ar y dirwedd ac effeithiau gweledol;**
- **effeithiau cronnol;**
- **yr effaith ar leoliad Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol;**
- **amlygrwydd gweledol, cysgodion symudol, golau wedi'i adlewyrchu neu effeithiau sŵn.**
- **yr effaith ar yr asedau gwarchodedig canlynol a nodwyd:**
  - **asedau archaeolegol, pensaernïol neu hanesyddol;**
  - **safleoedd cadwraeth natur a rhywogaethau;**
  - **adnoddau naturiol neu warchodfeydd natur.**
- **tarfu electromagnetig ar systemau cyfathrebu sy'n bodoli eisoes**

**Mae'n rhaid darparu mynedfa addas i'r safle at ddibenion adeiladu a chynnal a chadw. Mae'n rhaid rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer diwedd oes y datblygiad, gan gynnwys symud yr holl seilwaith cyn gynted ag y rhoddir y gorau i'w ddefnyddio a'r ôl-ddefnydd priodol o'r safle.**



P10 Nid yw pob rhan o'r ardal o fewn Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt yn addas ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Fe eithrir safleoedd Natura 2000 o fewn yr Ardaloedd â Blaenoriaeth. Rhoddir ystyriaeth ofalus i leoli cynlluniau, yn enwedig yr effeithiau cronnol. Caiff canllawiau pellach ar ddatblygu cynlluniau ynni gwynt ac ynni solar ar y tir mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth eu llunio er mwyn cynorthwyo gyda'r broses ddatblygu. Caiff y gwaith o roi datblygiadau ar waith mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth ei fonitro yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy.



## Polisi 11 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar y Tu Allan i Ardaloedd â Blaenoriaeth P11

**Y tu allan i Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Solar ac Ynni Gwynt, mae'n rhaid i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar mawr ddangos bod y cynnig yn dderbyniol, yn unol â'r meini prawf isod.**

**Mae'n rhaid i geisiadau cynllunio ddangos sut mae'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol *mwyaf wedi'u sicrhau* i'r gymuned leol ac na fydd y datblygiad yn cael unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar y canlynol neu oherwydd y canlynol:**

- **yr effaith ar y dirwedd ac effeithiau gweledol;**
- **effeithiau cronnol;**
- **yr effaith ar leoliad Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol;**
- **amlygrwydd gweledol, cysgodion symudol, golau wedi'i adlewyrchu neu effeithiau sŵn;**
- **yr effaith ar yr asedau gwarchodedig canlynol a nodwyd:**
  - **asedau archaeolegol, pensaernïol neu hanesyddol;**
  - **safleoedd cadwraeth natur a rhywogaethau;**
  - **adnoddau naturiol neu warchodfeydd natur.**
- **tarfu electromagnetig ar systemau cyfathrebu sy'n bodoli eisoes.**

**Mae'n rhaid darparu mynedfa addas i'r safle at ddibenion adeiladu a chynnal a chadw. Mae'n rhaid rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer diwedd oes y datblygiad, gan gynnwys symud yr holl seilwaith cyn gynted ag y rhoddir y gorau i'w ddefnyddio a'r ôl-ddefnydd priodol o'r safle.**



## Polisi 12 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol P12

**Nid yw datblygiadau ynni gwynt nac ynni solar mawr ar y tir yn dderbyniol mewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.**

---

P11 Y tu allan i'r Ardaloedd â Blaenoriaeth, gallai datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar mawr ar y tir fod yn briodol. Penderfynir ar geisiadau yn ôl rhinweddau'r cynnig unigol a'r ymgeisydd sy'n gyfrifol am ddangos na fydd cynnig yn cael effaith annerbyniol ar yr ardal o'i amgylch.

P12 Nid yw datblygiadau ynni gwynt nac ynni solar mawr ar y tir yn briodol mewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'n rhaid i gynigion y tu mewn i ffiniau ardaloedd dynodedig ddangos na fydd y datblygiad yn tanseilio'r amcanion sy'n sail i ddibenion y dynodiad.

## Polisi 13 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy Eraill P13


**Penderfynir ar gynigion ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mawr eraill (10MV a throsodd) yn unol â meini prawf Polisi P11.**

P13 Cefnogir technolegau ynni adnewyddadwy heblaw am dechnolegau gwynt a solar mewn egwyddor. Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi Atlas Ynni i nodi cyfleoedd ar gyfer pob math o brosiect adnewyddadwy. Dylai cynigion sicrhau na fydd y datblygiad yn cael unrhyw effaith andwyol annerbyniol sylweddol ar yr amgylchedd naturiol a'r cymunedau lleol o'i amgylch ac y bydd yn dod â manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Gall cynlluniau ynni adnewyddadwy mawr ddod â manteision cymdeithasol ac economaidd uniongyrchol i gymunedau lleol ledled y wlad. Gall perchenogaeth leol o brosiectau, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, sicrhau'r manteision hyn dros yr hirdymor, gan gynhyrchu refeniw i ddatblygu cyfleusterau cymunedol a helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Gall prosiectau ynni adnewyddadwy hefyd sicrhau manteision amgylcheddol, megis cyfrannu at rwydweithiau ecolegol gwydn, adfer mawndiroedd diraddedig a glaswelltiroedd lled-naturiol ar dir ôl-amaethyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog ymgeiswyr ar gyfer unrhyw ddatblygiad ynni adnewyddadwy i ystyried sut y gellir sicrhau'r manteision hyn. Yn achos pob prosiect, dylai darpariaethau ar gyfer cael mynediad i'r safle at ddibenion adeiladu a chynnal a chadw'r cynllun gydnabod yr amgylchedd lle mae wedi'i leoli ac ymateb iddo. Bydd symud seilwaith yn ofalus cyn gynted ag y rhoddir y gorau i'w ddefnyddio a'r ôl-ddefnydd priodol o'r safle hefyd yn sicrhau manteision amgylcheddol.

**Meysydd Blaenoriaeth Ynni Cymru**




**ARDALOEDD BLAENORIAETH**

- Ynni Solar a Gwynt
- Ynni Solar yn unig
- Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol

ffynhonnell data: Arup



## Polisi 14 – Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol P14

**Mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol, dylai awdurdodau cynllunio nodi cyfleoedd i sefydlu Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol a sicrhau y cânt eu hintegreiddio mewn datblygiadau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes.**

## Polisi 15 – Uwchgynllunio ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol P15

**Lle y bo'n ddichonadwy, dylai fod gan ddatblygiadau defnydd cymysg mawr Rwydwaith Gwres Rhanbarthol. Dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau o'r fath baratoi Uwchgynllun Ynni er mwyn cadarnhau ai Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol yw'r opsiwn mwyaf effeithiol ar gyfer cyflenwi ynni ac, ar gyfer prosiectau dichonadwy, gynllun i'w rhoi ar waith.**

### Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol

Mae Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol yn ddull o gyflenwi gwres a dŵr poeth i nifer o adeiladau o ffynhonnell wres ganolog ac, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, mae'n bosibl mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwres carbon isel. Mae Llywodraeth Cymru o blaid sefydlu Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol fel rhan o gyflawni ffocws twf trefol y Strategaeth Ofodol.

P14 Ein blaenoriaeth ofodol yw sicrhau yr ymchwilir i addasrwydd a dichonoldeb Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol yn y trefi a'r dinasoedd y nodwyd eu bod yn Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol a ddangosir ar dudalen 42. Mae'r rhain wedi'u lleoli yn y rhannau hynny o Gymru yr ystyrir bod ganddynt y potensial mwyaf ar gyfer sefydlu Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol. Maent wedi cael eu nodi ar y sail bod ganddynt ddwysedd gwres digon uchel i'w gwneud yn ddichonadwy. Mae ystyriaeth hefyd wedi'i rhoi i faint aneddiadau, y cymysgedd o ddefnydd, y potensial ar gyfer datblygu ac unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol. Mewn egwyddor, fe'i cefnogir ble bynnag y maent yn ddichonadwy.

P15 Dylai awdurdodau cynllunio ystyried a nodi cyfleoedd i sefydlu Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol, yn enwedig yn yr Ardaloedd â Blaenoriaeth, a, lle y bo'n bosibl, geisio datblygu Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol i ddinasoedd neu drefi cyfan mewn cymaint o leoliadau â phosibl.

Dylai cynigion ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg mawr sy'n cynnwys 100 o anheddau neu fwy o leiaf ystyried y potensial ar gyfer sefydlu Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol. Mae potensial hefyd i'w sefydlu o dan y trothwy hwn.

Wrth gynllunio datblygiadau newydd dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynnwys Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol. Dylid rhoi ystyriaeth benodol i ffurf a dwysedd y datblygiad, y cymysgedd o ddefnydd a sut y caiff ei gyflawni fesul cam.

# 5 Y Rhanbarthau


Mae tri rhanbarth Cymru yn darparu ffocws ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru a'i buddsoddiadau yn y dyfodol. Mae gan bob rhanbarth ei gyfleoedd a'i heriau unigryw ei hun. Bydd ymateb i'r rhain drwy gydweithredu rhanbarthol mwy effeithiol yn gwella canlyniadau i bob rhan o Gymru ac yn sicrhau bod cyfoeth a chyfleoedd yn cael eu dosbarthu'n decach.

Mae gan y system gynllunio rôl bwysig i'w chwarae o ran llywio datblygu rhanbarthol drwy gydgysylltu a rheoli gwaith datblygu ym mhob rhanbarth a sicrhau yr eir i'r afael â materion sy'n bwysig y tu hwnt i lefel leol, ar y cyd ac yn strategol.

Caiff Cynlluniau Datblygu Strategol eu llunio ar lefel ranbarthol. Maent yn ystyried materion rhanbarthol strategol mewn perthynas â ardaloedd twf yn y dyfodol, y galw am dai, datblygu economaidd, trafnidiaeth a seilwaith gwyrdd sy'n torri ar draws awdurdodau cynllunio lleol ac yn gofyn am ymateb cynllunio integredig rhanbarthol.

Nid yw trefniadau rhanbarthol anffurfiol gan gynnwys ymrwymiadau i gydweithio drwy Gynlluniau Datblygu Lleol traddodiadol na dulliau cynllunio rhanbarthol nad ydynt yn arwain at lunio Cynllun Datblygu Strategol, yn gyfystyr â'r math o gynllunio rhanbarthol sy'n ofynnol gan y FfDC.

Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu yn rhoi canllawiau ar sut i lunio a diwygio Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.





## Polisi 16 – Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol P16

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol ymgorffori creu lleoedd fel egwyddor gyffredinol a dylent nodi'r canlynol ar gyfer y rhanbarth (a lle y bo angen CDLlau cyfansoddol):**

- **strategaeth ofodol;**
- **hierarchaeth aneddiadau;**
- **y ddarpariaeth a'r gofyniad tai;**
- **anghenion sipsiwn a theithwyr;**
- **darpariaeth cyflogaeth;**
- **yr ardaloedd gofodol ar gyfer cynnydd tai a chyflogaeth strategol ac ynni adnewyddadwy ac ar gyfer nodi lleiniau gwyrdd, coridorau gwyrdd a thirweddau o bwys cenedlaethol;**
- **lleoliad gwasanaethau allweddol, trafnidiaeth a seilwaith cysylltedd;**
- **fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ac asedau diwylliannol yn gynaliadwy;**
- **rhwydweithiau ecolegol a chyfleoedd i ddiogelu neu wella cysylltedd y rhwydweithiau hyn;**
- **fframwaith cydgysylltiedig ar gyfer echdynnu mwynau a'r economi gylchol, gan gynnwys trin a gwaredu gwastraff.**

**Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol gael eu cyflwyno ym mhob un o'r tri rhanbarth er mwyn i ofynion y polisi hwn gael eu bodloni.**



### Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol

P16 Mae'n well ystyried llawer o feysydd polisi ar lefel ranbarthol a rôl Cynllun Datblygu Strategol yw datblygu fframwaith polisi clir sy'n nodi'r materion hyn; sy'n datblygu ymateb polisi strategol; ac sy'n rhoi cyfeiriad i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn unol â'r system a arweinir gan gynllun. Fel gofyniad sylfaenol, mae'n rhaid i bolisïau strategol ar gyfer cynllunio rhanbarthol fynd i'r afael yn llawn â'r materion a nodir ym Mholisi P16.

Mae gan awdurdodau lleol a phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector oll gyfraniad i'w wneud at ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol a gall y cynlluniau hyn gynnwys materion polisi eraill sy'n bwysig ar lefel ranbarthol. Mae llunio Cynlluniau Llesiant Lleol, Datganiadau Ardal (Cyfoeth Naturiol Cymru); modelau trafnidiaeth rhanbarthol (Trafnidiaeth Cymru) a chynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol; ac Asesiad Llywodraeth Cymru o'r Angen am Dai yn enghreifftiau o waith a all gefnogi'r gwaith o lunio Cynlluniau Datblygu Strategol yn uniongyrchol.

Er mwyn rhoi cyfeiriad i'w rhanbarth, mae'n bwysig y caiff Cynlluniau Datblygu Strategol eu llunio. Dylai awdurdodau cynllunio lleol nodi eu hôl troed daearyddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio lleol er mwyn helpu i lunio Cynlluniau Datblygu Strategol.

### Cysoni Cynlluniau a Strategaethau Datblygu Rhanbarthol

Mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol yn llywio strategaethau rhanbarthol eraill, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru a Bargeinion Dinesig a Thwf, a'u bod yn cael eu llywio ganddynt. Os na fydd canlyniadau allweddol yn cyd-fynd â'i gilydd neu os na fyddant yn cefnogi ei gilydd, caiff gallu'r rhanbarth i gyflawni ei danseilio. Er y bydd strategaethau rhanbarthol gwahanol yn gweithredu yn unol ag amserlenni gwahanol ac y gallent gael eu diwygio ar adegau gwahanol, dylai llunwyr cynlluniau rhanbarthol ystyried gyda phartneriaid rhanbarthol sut y gellir cyfuno gweithgareddau casglu tystiolaeth ac ymgynghori.

### Adolygu'r FfDC a Chynllunio Rhanbarthol

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod cynnydd yn cael ei wneud o ran cynllunio rhanbarthol ledled Cymru ac, fel rhan o'r gwaith o fonitro'r FfDC, bydd yn monitro cynnydd ffurfiol o ran llunio Cynlluniau Datblygu Strategol.

### Y Tri Rhanbarth

Mae'r adrannau canlynol yn nodi polisïau'r FfDC ar gyfer pob rhanbarth a byddant yn rhoi cyfeiriad ar gyfer llunio Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a phenderfyniadau i'w gwneud ar gynigion cynllunio.



Mae'r gorllewin yn ardal o ansawdd **tirweddol** ac amgylcheddol **uchel**.

**Mae arc ogleddol o ardaloedd adeiledig** yn ymestyn ar draws y rhanbarth lle mae'r boblogaeth, amddifadedd, gwasanaethau allweddol, cyfleusterau, gweithgarwch cymudol a gweithgarwch economaidd wedi'u crynhoi.

Mae'r dwyrain yn rhan o ardal adeiledig **drawsffiniol** fwy o lawer sy'n cynnwys Lerpwl a Manceinion.

Ceir cefnwlad **wledig fawr**.

Mae'r **perygl o lifogydd** yn sylweddol ar rannau o'r arfordiroedd gogleddol a gorllewinol.

Mae aneddiadau yn fach, ar y cyfan. Mae mwy nag 80% o'r boblogaeth yn byw mewn aneddiadau sy'n **cynnwys llai na 25,000 o bobl**. Ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd mae'r mwyafrif o'r boblogaeth yn byw mewn aneddiadau sy'n cynnwys llai na 2,000 o bobl.




Mae **cysylltedd da** ar ffyrdd a rheilffyrdd ar hyd yr arfordir gogleddol.

Mae **cysylltiadau o'r gogledd** i'r de yn wannach ac effeithiwyd arnynt gan dopograffi.

Mae mwy na **200,000 o siaradwyr Cymraeg**.

Mae'r boblogaeth wedi'i dosbarthu ar draws y rhanbarth. Mae mwy na 300,000 o bobl ynSiroedd Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy.

Dim ond Wrecsam, y Rhyl a Bae Colwyn sydd **â mwy na 25,000 o bobl**.

## Polisi 17 – Wrecsam a Glannau Dyfrdwy P17

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fel y prif ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad rhanbarthol. Dylid cynnal a gwella rôl Wrecsam a Glannau Dyfrdwy yn rhanbarth y Gogledd ac ardaloedd trawsffiniol ehangach Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a Dinas-Ranbarth Lerpwl.**

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ledled y rhanbarth gydnabod Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fel y ffocws ar gyfer cynnydd tai a thwf economaidd strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; seilwaith trafnidiaeth a seilwaith digidol; ac ystyried sut y gallant gefnogi rôl ranbarthol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a manteisio arni.**

**Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau trawsffiniol i hyrwyddo rôl strategol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yn cefnogi Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a'r rhanbarth ehangach.**

### Trosolwg

Mae rhanbarth **Gogledd Cymru** yn cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Parc Cenedlaethol Eryri a Wrecsam ac mae'n gartref i bron 700,000 o bobl. Mae ei thirwedd ddramatig yn cynnwys gwastadeddau arfordirol isel, cadwyni o fynyddoedd a meysydd glo diwydiannol. Mae'r boblogaeth wedi'i chrynhoi mewn arc ar hyd yr arfordir o Afon Menai i'r ffin â Lloegr ac yn y dwyrain o amgylch Wrecsam-Glannau Dyfrdwy y ceir y prif grynhoad o boblogaeth.

Nodir y materion rhanbarthol y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydweithio i gynllunio ar eu cyfer isod, ochr yn ochr â'r meysydd polisi gofodol y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt o safbwynt cenedlaethol er mwyn cefnogi rhanbarth y Gogledd.

#### Dull cydweithredol, cyfannol


Ledled Gogledd Cymru, ceir amrywiaeth o faterion strategol y mae angen eu hystyried. Mae i lawer o'r materion hyn ddimensiynau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chânt eu cyflawni drwy gydweithredu ar bob lefel.


Dylid cydgysylltu a chynllunio tai, twf economaidd a seilwaith cysylltedd ar sail y rhanbarth cyfan. Dylai'r angen i reoli adnoddau naturiol a llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol, lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd. Dylai datgarboneiddio cymdeithas ac ymateb i fygythiadau newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd unrhyw waith cynllunio rhanbarthol.

Dylai'r rhanbarth gydweithio i ystyried y cysylltiadau â Chanolbarth a De-orllewin Cymru, Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a Gogledd-orllewin Lloegr. Bydd hyrwyddo hygyrchedd a rhyng-gysylltiadau rhwng yr ardaloedd hyn, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'u rolau a'u swyddogaethau, yn sicrhau eu bod yn gweithredu fel un ardal gydlynus ac nad ydynt yn cystadlu â'i gilydd nac yn gwneud penderfyniadau strategol ar eu pen eu hunain.

#### Ffocws ar gyfer twf

P17 Yn unol â Strategaeth Ofodol y FfDC, dylid canolbwyntio twf yn rhanbarth y Gogledd yn y prif ardaloedd adeiledig sy'n bodoli eisoes yn Wrecsam-Glannau Dyfrdwy. Mae ardal Wrecsam a Glannau Dyfrdwy yn cynnwys Wrecsam (ac Ystad Ddiwydiannol Wrecsam), Brychdwn, Bwcle, Glannau Dyfrdwy (a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy).


Caergybi
Llandudno
Bae Colwyn
Rhyl
Prestatyn
Mostyn
M
Bangor
Caernarfon
Glannau Dyfrdwy
Wrecsam


Ardal Twf Cenedlaethol
Cysylltedd Rhanbarthol
Cysylltedd Rhyng-drefol
Cysylltiadau Rhyngwladol
Porthladdoedd
Llain Las
Mae Awyr Môn
Canolfannau Twf Cenedlaethol
Canolfannau Twf Rhanbarthol
Ynys Ynni Môn
Trawsfynydd
Metro Gogledd Cymru
M



## Polisi 18 – Aneddiadau Arfordirol yng Ngogledd Cymru P18

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r arc arfordirol adeiledig o Gaernarfon i Lannau Dyfrdwy fel y ffocws ar gyfer twf a reolir, gan adlewyrchu'r rôl isranbarthol bwysig y mae'r ardal hon yn ei chwarae wrth gefnogi'r brif ardal dwf a nodwyd, sef Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.**

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ledled y rhanbarth gydnabod rôl y coridor hwn fel ffocws ar gyfer tai, cyflogaeth a gwasanaethau allweddol.**

## Polisi 19 – Lleiniau Glas yng Ngogledd Cymru P19

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rôl y mae cynlluniau datblygu rhanbarthol yn ei chwarae wrth nodi a sefydlu lleiniau glas i reoli ffurf a thwf trefol yng Ngogledd Cymru, yn enwedig o amgylch Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.**

**Dylai cynlluniau rhanbarthol ystyried y gydberthynas rhwng unrhyw leiniau glas newydd a'r llain las yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer.**

---

P18 Mae'r coridor adeiledig ar hyd arfordir Gogledd Cymru o Gaernarfon i Lannau Dyfrdwy yn cynnwys Bangor, Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl a Phrestatyn. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ardaloedd adeiledig yn yr arc hon chwarae rôl bwysig yn y rhanbarth, gan ddarparu swyddi; hamdden a darpariaeth fanwerthu; cyfleoedd diwylliannol; addysg, iechyd a gwasanaethau. Mae'n bwysig bod y coridor yn cadw ei rôl ranbarthol ac yn cefnogi dull gweithredu seiliedig ar dwf a reolir sy'n ei gwneud yn bosibl i'r rolau hyn gael eu hymestyn. Mae cefnogaeth gref i gyfleoedd adfywio yn y coridor hwn. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ledled y rhanbarth gydnabod rôl y coridor hwn fel ffocws ar gyfer tai, cyflogaeth a gwasanaethau allweddol.

Mae llifogydd o afonydd a'r môr yn broblem fawr ledled y rhanbarth. Bydd i'r posibilrwydd y ceir llifogydd o amgylch Wrecsam a Glannau Dyfrdwy ac ar hyd arfordir Gogledd Cymru oblygiadau o ran sicrhau twf yn yr ardal hon. Rhaid i benderfyniadau strategol ynghylch rheoli llifogydd a buddsoddiad cysylltiedig gael eu cydgysylltu â penderfyniad i gyfeirio datblygiad at ardaloedd twf.

Bydd cynllunio a chydgysylltu'r gwaith o gyflenwi tai newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd yn dasg bwysig ar gyfer y broses cynllunio rhanbarthol. Yn ôl amcangyfrif canolog Llywodraeth Cymru bydd angen 19,400 o gartrefi ychwanegol yn y rhanbarth tan 2038 a thros y 5 mlynedd cyntaf (2018-19 i 2022/23) fod angen i 51% fod yn dai fforddiadwy. Mae'r amcangyfrifon hyn yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio Gofynion Tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol arnynt.

P19 Dylai penderfyniadau strategol ynghylch lleoliad gwasanaethau a seilwaith allweddol gefnogi ardaloedd adeiledig sy'n bodoli eisoes a chael eu gwneud ar lefel ranbarthol, gan sicrhau eu bod wedi'u lleoli yn y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy a'u bod yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd a gwella cysylltiadau ag ardaloedd cyfagos yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio lleiniau gwyrdd yn rhanbarth y Gogledd i reoli a chynllunio twf trefol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun polisi ar eu cyfer. Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu strategol nodi llain las sy'n cynnwys yr ardal i'r gogledd-ddwyrain o Wrecsam.

**Y Gymraeg**

Gyda mwy na 200,000 o siaradwyr Cymraeg ledled y rhanbarth a chrynoadau o aneddiadau lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf llawer o bobl, mae'n bwysig bod cynlluniau datblygu yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg.

**Economi gref**

Bydd y Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol, a gaiff ei lunio gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid allweddol, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Bydd gan y system gynllunio, drwy ei Chynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a'r penderfyniadau a wna, rôl bwysig i'r chwarae o ran creu'r lleoedd sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu'r economi ranbarthol.



Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol gael ei lywio gan Fargen Twf Gogledd Cymru a cheisio hwyluso'r gwaith o'i chyflawni a sicrhau cymorth i greu Gogledd Cymru ddeallus, gydnerth a chysylltiedig. Bydd yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud y penderfyniadau lleoliadol strategol a fydd yn helpu i gyflawni uchelgeisiau hirdymor y Fargen Twf mewn perthynas â thai, twf economaidd, gwasanaethau allweddol a seilwaith hanfodol. Dylai hefyd ystyried pwysigrwydd sectorau economaidd allweddol ledled y rhanbarth.

Mae twristiaeth yn sector pwysig i'r economi ledled Gogledd Cymru. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried y prif ardaloedd twristiaeth, y math o ymwelwyr a ddenir ganddynt a'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r ardaloedd twristiaeth presennol a thwf yn y dyfodol.

Mae gan brifysgolion bresenoldeb pwysig yn y rhanbarth, gan ddarparu addysg bellach, gwneud ymchwil a chefnogi arloesedd, darparu swyddi, denu myfyrwyr i Fangor a Wrecsam a chefnogi'r busnesau lleol a'r cymunedau o'u hamgylch.

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol geisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddi mewn sectorau gweithgynhyrchu uchel ei werth. Pan gaiff ei adeiladu yn 2020, bydd yr Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch ym Mrychdwn, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn fenter gydweithredol rhwng Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Prifysgol Sheffield, Bwrdd Cynghori Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, Prifysgol Abertawe a Choleg Cambria. Bydd yn cefnogi cwmni Airbus a chwmnïau gweithgynhyrchu uchel eu gwerth allweddol eraill ac yn canolbwyntio ar ymchwil a datblygu ym maes technegau gweithgynhyrchu uwch a datblygu sgiliau, ar gyfer y sector aerofod gweithgynhyrchu uchel ei werth, y sector modurol, y sector niwclear a'r sector bwyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid cymunedau gwledig cydnerth a ffyniannus, fel y nodir gan Bolisi P4, ac mae'n disgwyl i gynlluniau datblygu ledled y rhanbarth ymateb yn gadarnhaol i nodau'r polisi hwn.

## Polisi 20 – Porthladd Caergybi P20

**Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweithredwyr y porthladd, awdurdodau lleol a buddsoddwyr er mwyn helpu i ddatblygu'r porthladd a hwyluso buddsoddiad newydd er mwyn sicrhau y caiff ei rôl fel porth strategol ei chynnal a'i hehangu. Mae buddsoddi i gynyddu capasiti'r porthladd i dderbyn llongau mordeithio yn cael ei gefnogi.**

**Dylid rheoli datblygiadau newydd o amgylch y porthladd yn ofalus er mwyn sicrhau na chyfyngir neu nad amherir ar unrhyw gynlluniau i ehangu'r porthladd ymhellach neu ei newid.**

## Polisi 21 – Cysylltiadau Trafnidiaeth â Gogledd-orllewin Lloegr P21

**Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol yng Nghymru a gogledd orllewin Lloegr er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau mewn trafnidiaeth, gan gynnwys ym Metro Gogledd Cymru, yn atgyfnerthu cysylltiadau trafnidiaeth trawsffiniol.**

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol helpu i wella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Gogledd Cymru, Caer, Lerpwl a Manceinion a chynllunio twf er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a allai ddeillio o gysylltedd rhanbarthol gwell.**

---

P20 **Rhanbarth hygyrch a chysylltiedig**

Mae'r rhanbarth yn cael ei wasanaethu gan borthladdoedd yng Nghaergybi a Mostyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y porthladd yng Nghaergybi i Ynys Môn, Gogledd Cymru, Cymru, a'r DU ac Iwerddon yn fwy cyffredinol. Mae Caergybi yn ased rhanbarthol mawr ac yn borth pwysig i Gymru ac mae'n bosibl mai'r dref hon yw'r profiad cyntaf a gaiff pobl o ymweld â Chymru Mae'n bwysig eu bod yn cael profiad cadarnhaol. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried ei hanghenion datblygu yn y dyfodol a chynllunio i'w diwallu a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir ganddi i gefnogi twf ledled y rhanbarth. Gall terfynfa newydd i longau mordeithio ddarparu gwell cyfleusterau i longau a theithwyr a bod yn borth i ymwelwyr â gogledd Cymru. Mae Mostyn yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi'r sector ynni adnewyddadwy ar y môr.

P21 Mae cynigion ar gyfer Metro Gogledd Cymru yn cynnig cyfle i wella hygyrchedd ledled y rhanbarth ac fe'u cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Yn unol â P16, mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol sicrhau bod penderfyniadau strategol hirdymor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn ardaloedd a fydd yn cael budd o well hygyrchedd a mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae cydberthnasau swyddogaethol cryf rhwng aneddiadau a rhanbarthau yng Ngogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, gyda phobl yn teithio bob dydd i'r ddau gyfeiriad er mwyn mynd i'r gwaith a defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau mewn rhanbarthau cyfagos.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fod yn hyderus wrth geisio cysoni meysydd lle mae angen â meysydd lle mae cyfle, gan gynnwys pan fo'r meysydd lle mae cyfle ar draws y ffin a bod y buddsoddiad a'r camau gweithredu canlyniadol yn canolbwyntio ar wella'r cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru a chyfleoedd economaidd yn Lloegr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i fynd i'r afael â thagfeydd ar yr A55 gan gynnwys drwy ei Rhaglen Mannau Cyfyng o ymyriadau ar raddfa fach y bwriedir iddynt fynd i'r afael â mannau cyfyng lle y ceir tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd. Lle y nodir coridorau cysylltedd rhwng y Gogledd a Lloegr, ymchwilir i'r posibilrwydd o droi'r coridorau hyn yn seilwaith gwyrdd.

## Polisi 22 – Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni P22

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiadau ynni newydd a buddsoddiad. Dylai datblygiadau ynni newydd gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol; darparu swyddi a sicrhau buddsoddiad mewn hyfforddiant a sgiliau; a gweithio gyda phrifysgolion a busnesau ledled y rhanbarth a Gogledd-orllewin Lloegr i gydgysylltu buddsoddiad newydd a manteisio i'r eithaf arno er mwyn cefnogi'r rhanbarth ehangach.**

**Wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau am orsafoedd ynni niwclear yn y rhanbarth hwn, dylid ystyried yr angen am ragor o gapasiti cynhyrchu ynni anadnewyddadwy, eu cyfraniad at gymysgedd ynni Cymru, eu heffeithiau ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol a'r manteision economaidd y byddent yn eu sicrhau i'r rhanbarth.**

**Rhanbarth unigryw**

Mae rheoli adnoddau naturiol eithriadol y Gogledd, sy'n cynnwys yr arfordir, dau safle treftadaeth y byd, parc cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a mwynau yn flaenoriaeth i'r rhanbarth a dylid sicrhau y gallant gael eu mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol a helpu i sicrhau manteision economaidd i gymunedau'r rhanbarth. Dylai treftadaeth unigryw'r rhanbarth gael ei diogelu a'i gwella gan ddatblygiadau o ansawdd uchel.

P22 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol o ran cefnogi ynni adnewyddadwy a sicrhau bod y Gogledd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio cymdeithas. Mae gan y rhanbarth gryn botensial i gynhyrchu gwynt, ynni solar ac ynni'r llanw.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi menter Arc Niwclear y Gogledd-orllewin sy'n weledigaeth a rennir (â Llywodraeth y DU, prifysgolion a'r Labordy Niwclear Cenedlaethol) i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol y gallai'r sector niwclear eu cael o ran buddsoddi, sgiliau a hyfforddiant. Mae Rhaglen 'Ynys Ynni Môn' hefyd yn ceisio cydgysylltu camau gweithredu o amgylch datblygiadau ynni newydd er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r ardal.


Gallai'r cynllun arfaethedig i adeiladu gorsaf ynni niwclear Wylfa Newydd ddod â manteision sylweddol o ran cyflogaeth, hyfforddiant a manteision economaidd cysylltiedig eraill ledled y rhanbarth cyfan os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynllun. Gallai Adweithyddion Modiwlar Bach (niwclear) gynhyrchu ynni carbon isel yn y rhanbarth. Mae Trawsfynydd yn cael ei hyrwyddo gan Fwrdd Cynghori Ardal Fenter Eryri ar hyn o bryd fel safle posibl ar gyfer Adweithydd Modiwlar Bach gan adeiladu ar y capasiti a'r arbenigedd technegol sector-benodol sydd ar gael yn lleol.

Gallai manteision economaidd posibl datblygiadau niwclear newydd, yn enwedig o ran creu swyddi uchel eu gwerth, sbarduno datblygu rhanbarthol. Fodd bynnag, bydd angen pwyso a mesur yr ystyriaethau hyn yn erbyn yr effaith hirdymor y gallai'r datblygiadau mawr hyn eu cael ar ardaloedd sensitif a'r amgylchedd oddi amgylch.

Mae poblogaeth ddwys y rhanbarth, ei dwf hanesyddol a'i dwf yn y dyfodol a'r ffaith ei fod yn agos at farchnadoedd yng Ngogledd-orllewin Lloegr yn golygu ei fod yn defnyddio llawer o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol. Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau materol ac yn hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau a'i fod yn uchelgeisiol wrth gefnogi ffyrdd arloesol o hyrwyddo economi gylchol.

Yn y rhanbarth, mae tywod a graean sy'n cael eu hechdynnu yn bennaf yn Wrecsam a Sir y Fflint ac agregau cerrig mâl o Sir y Fflint yn cyflenwi marchnadoedd lleol a'r rhai yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Er bod dyddodion tebyg i'w cael yng Ngogledd-orllewin Cymru, yn enwedig yng Ngwynedd, nid ydynt mewn sefyllfa cystal i gyflenwi'r prif farchnadoedd ac, felly, mae gweithgarwch cynhyrchu yn fwy cyfyngedig. Mae Conwy a Sir Ddinbych yn chwarae rôl bwysig wrth ddarparu calchfaen ar gyfer datblygiadau a phrosiectau seilwaith ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Cyfyngir ar gloddio am agregau llechi i raddau helaeth gan ddynodiadau'r Parc Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a, lle y cânt eu hechdynnu, fe'u defnyddir fel arfer yn lleol neu ar gyfer datblygiadau uchel eu gwerth ymhellach i ffwrdd.

# Canolbarth a De-orllewin Cymru



Mae'r rhanbarth yn cynnwys **dau barc cenedlaethol ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol**.

Ceir **prifysgolion** yn Llanbedr Pont Steffan, Caerfyrddin, Abertawe ac Aberystwyth.

Mae **330,000** o bobl yn byw ym Mhowys, Ceredigion a Sir Benfro.

Mae rhannau gogleddol a gorllewinol y rhanbarth yn cynnwys ardaloedd **gwledig yn bennaf**.

Mae gan yr ardal gryn **botensial i ddatblygu adnoddau ynni adnewyddadwy**.

Nid oes unrhyw aneddiadau ym Mhowys, Ceredigion na Sir Benfro sy'n cynnwys mwy na **25,000 o bobl**.

Mae **topograffi tonnog** ar draws canolbarth Cymru yn cyfyngu ar hwylustod symud a chysylltedd digidol.

Mae 67% o'r boblogaeth yng Ngheredigion a 50% o'r boblogaeth ym Mhowys yn byw mewn aneddiadau sy'n cynnwys **llai na 2,000 o bobl**.

Mae Abertawe-Castell-nedd Port Talbot – Llanelli yn rhan o **ardal adeiledig helaethach arfordir-cymoedd De Cymru** sy'n ymestyn i'r dwyrain.

Mae **574,000** o bobl yn byw yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin.

Mae **cysylltedd cym-harol dda** ar hyd yr arfordir deheuol ar ffyrdd a rheilffyrdd.

Y tu allan i'r ardal arfordirol ddeheuol, prin yw'r cyfleoedd i **deithio ar y trên**.

## Trosolwg

Mae rhanbarth **Canolbarth a De-orllewin Cymru** yn cynnwys Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Abertawe a Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ac mae ganddo boblogaeth o fwy na 900,000 o bobl. Mae'r rhanbarth mawr ac amrywiol hwn yn cynnwys rhai o'r rhannau mwyaf gwledig a lleiaf poblog o'r DU a'r ardaloedd adeiledig trefol a diwydiannol o amgylch ail ddinas Cymru, Abertawe. Mae'r boblogaeth wedi'i chrynhoi yn y de o amgylch Bae Abertawe a Llanelli, gyda chlwstwr eilaidd o drefi o amgylch dyfrfford Aberdaugleddau ac yn y trefi mwy o faint yn y rhanbarth sy'n cynnwys Aberystwyth, Caerfyrddin, Llandrindod a'r Drenewydd.

Nodir y materion rhanbarthol y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydweithio i gynllunio ar eu cyfer isod, ochr yn ochr â'r meysydd polisi gofodol y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt o safbwynt cenedlaethol er mwyn cefnogi rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.



### Dull cydweithredol, cyfannol

Ledled Canolbarth a De-orllewin Cymru, mae amrywiaeth o faterion strategol y mae angen eu hystyried. Mae i lawer o'r materion hyn ddimensiynau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chânt eu cyflawni drwy gydweithredu ar bob lefel.


Dylid cydgysylltu a chynllunio tai, twf economaidd a seilwaith cysylltedd ledled y rhanbarth cyfan. Dylai'r angen i reoli adnoddau naturiol a llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol, lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd. Dylai datgarboneiddio cymdeithas ac ymateb i fygythiadau newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd unrhyw waith cynllunio rhanbarthol.

Oherwydd maint a natur amrywiol y rhanbarth mawr hwn, sy'n cynnwys ail ddinas Cymru, dau barc cenedlaethol a rhai o'r ardaloedd mwyaf gwledig yn y DU, nid oes ganddo yr un lefel o gydgysylltiad ag sydd gan ranbarthau eraill. O safbwynt cenedlaethol lefel uchel, mae dwy ardal ofodol gyffredinol – sef yr ardaloedd adeiledig o amgylch Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a de Sir Gaerfyrddin a threfi'r Hafan, a'r aneddiadau gwasgaredig mewn cefnwlad wledig ehangach ar draws gogledd Sir Benfro, Ceredigion a gogledd Sir Gaerfyrddin.

Bydd materion strategol cyffredin i'w hystyried ar draws y rhanbarth a materion sy'n ymwneud yn benodol â is-ranbarth. Mater i awdurdodau cynllunio lleol fydd penderfynu sut y dylid ymgymryd â gwaith cynllunio rhanbarthol ledled y rhanbarth. Mae'n bosibl y bydd angen cyfuniad o Gynllun Datblygu Strategol ac un neu fwy o Gynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi dulliau gweithredu sy'n diffinio isranbarthau ac yn canolbwyntio arnynt, yn hytrach nag un rhanbarth cyfan, lle y dangosir bod hyn yn briodol.

### Ffocws ar gyfer twf

Yn unol â Strategaeth Ofodol y FfDC, dylid canolbwyntio twf yn Rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin ar ardal Bae Abertawe a Llanelli ac, mewn rôl eilaidd, Drefi'r Hafan, Caerfyrddin, Llandrindod, y Drenewydd ac Aberystwyth.


Y Drenewydd
Aberystwyth
Llandrindod
Abergwaun
Caerfyrddin
Hwlffordd
Aberdaugleddau
Doc Penfro
Penfro
Llanelli
M
Castell-Nedd
Abertawe
Port Talbot
Ardal Twf Cenedlaethol
Cysylltedd Rhanbarthol
Cysylltedd Rhyng-drefol
Cysylltiadau Rhyngwladol
Porthladdoedd
Metro Bae Abertawe
Canolfannau Twf Cenedlaethol
Canolfannau Twf Rhanbarthol

## Polisi 23 – Bae Abertawe a Llanelli P23

**Bae Abertawe a Llanelli fydd y prif ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad ar lefel ranbarthol.**

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ledled y rhanbarth gydnabod Bae Abertawe a Llanelli fel y ffocws ar gyfer twf strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; seilwaith trafnidiaeth a seilwaith digidol; ac ystyried sut y gallant gefnogi eu rôl ranbarthol strategol a manteisio arni.**

**Bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo rôl strategol ardal Bae Abertawe a Llanelli a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yn ei chefnogi a'r rhanbarth ehangach.**

## Polisi 24 – Canolfannau Rhanbarthol P24

**Trefi Caerfyrddin, Llandrindod, y Drenewydd, Aberystwyth a phedair Tref yr Hafan fydd y ffocws ar gyfer twf a reolir, sy'n adlewyrchu eu rolau isranbarthol pwysig.**

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ledled y rhanbarth gydnabod y rolau y mae'r aneddiadau hyn yn eu chwarae wrth ddarparu ffocws ar gyfer tai, cyflogaeth a gwasanaethau allweddol yn eu hardaloedd ehangach ac ystyried sut y gallant barhau fel canolbwynt ar gyfer twf isranbarthol.**

---

P23 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ardal Bae Abertawe a Llanelli (sy'n cynnwys Castell-nedd, Port Talbot, Dinas Abertawe a Llanelli) fel y brif ardal dwf ar gyfer y rhanbarth. Yr ardal hon yw prif ganolfan poblogaeth, cyflogaeth a gwasanaethau ar hyn o bryd ac fe'i gwasanaethir gan y prif seilwaith cysylltedd. Gall yr ardal ddarparu ar gyfer twf newydd mewn ffordd gynlluniedig a chydgysylltiedig, er mwyn diwallu anghenion y rhanbarth ehangach oddi amgylch.

P24 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rôl canolfannau rhanbarthol Caerfyrddin, Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod, y Drenewydd, Aberystwyth a phedair Tref yr Hafan (Aberdaugleddau, Hwlffordd, Penfro a Doc Penfro). Mae'r trefi hyn yn chwarae rolau isranbarthol pwysig, gan ddarparu swyddi; hamdden a darpariaeth fanwerthu; cyfleoedd diwylliannol; gwasanaethau addysg, a iechyd; a seilwaith cysylltedd y mae eu poblogaethau eu hunain a chymunedau o'u hamgylch yn ei ddefnyddio ac yn dibynnu arno. Mae'n bwysig bod yr aneddiadau hyn yn cadw eu rôl ranbarthol ac yn cefnogi dull gweithredu seiliedig ar dwf a reolir sy'n ei gwneud yn bosibl i'r rolau hyn gael eu hymestyn.

Bydd cynllunio a chydgysylltu'r gwaith o gyflenwi tai newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd yn dasg bwysig ar gyfer y broses cynllunio rhanbarthol. Yn ôl amcangyfrif canolog Llywodraeth Cymru bydd angen 23,400 o gartrefi ychwanegol yn y rhanbarth tan 2038 a thros y 5 mlynedd cyntaf (2018-19 i 2022/23) fod angen i 45% fod yn dai fforddiadwy. Mae'r amcangyfrifon hyn yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio Gofynion Tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol arnynt a dylid eu hystyried ar lefel ranbarthol.

Dylai penderfyniadau strategol ynghylch lleoliad gwasanaethau a seilwaith allweddol gefnogi cymunedau sy'n bodoli eisoes a chael eu gwneud ar lefel ranbarthol, gan sicrhau eu bod wedi'u lleoli yn y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy a'u bod yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd. Yn nwyrain y rhanbarth, mae cysylltiadau â Chanolbarth Lloegr yn cynnig cyfle i adeiladu ar gydberthnasau swyddogaethol sy'n bodoli eisoes, yn enwedig mewn perthynas â thai, cyflogaeth, marchnadoedd a gwasanaethau cyhoeddus. Mae cynllunio a darparu seilwaith ar y cyd yn cael ei gefnogi lle mae'n cyfrannu at lesiant cymunedau'r rhanbarth. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fod yn hyderus wrth geisio cysoni meysydd lle mae angen â meysydd lle mae cyfle, gan gynnwys pan fo'r meysydd lle mae cyfle ar draws y ffin a bod y buddsoddiad a'r camau gweithredu canlyniadol yn canolbwyntio ar wella'r cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru a chyfleoedd economaidd yn Lloegr.

## Polisi 25 – Dyfrffordd y Ddau Gleddau P25

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi parhad i weithrediadau yn yn ardal Dyfrffordd y Ddau Gleddau ac yn genfogol i ddatblygu yno yn y dyfodol. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi ei thwf a cheisio sicrhau ei bod yn dod â'r manteision mwyaf posibl i'r rhanbarth a Chymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweithredwyr, awdurdodau lleol a buddsoddwyr i gefnogi a hwyluso datblygiadau newydd priodol.**

### Y Gymraeg

Gydag ardaloedd sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg yn y rhanbarth, mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg.

### Cymru wledig gadarn

Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid cymunedau gwledig cydnerth a ffyniannus, fel y nodir ym Mholisi P4 ac mae'n disgwyl i gynlluniau datblygu ledled y rhanbarth ymateb yn gadarnhaol i nodau'r polisi hwn.

Dylai cynlluniau rhanbarthol ddarparu fframwaith cryf a chadarnhaol i gefnogi cymunedau gwledig ledled y Canolbarth a'r De-orllewin. Dylent ystyried sut y gellir darparu swyddi, gwasanaethau a thai mewn cymunedau gwledig, er mwyn i aneddiadau gwledig allu cynnal eu hunain a thyfu. Dylai cynlluniau rhanbarthol hefyd ystyried sut y bydd pobl yn cael gafael ar y swyddi a'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt y tu allan i'w cymuned. Mae hygyrchedd a chydgysylltiadau rhwng aneddiadau, sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o'u rolau a'u swyddogaethau, yn elfen bwysig o waith cynllunio strategol a dylai penderfyniadau lleoliadol allweddol gael eu llywio gan anghenion cymunedau gwledig a sut y byddant yn cael gafael ar swyddi a gwasanaethau.

Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru wedi nodi fframwaith pwysig ar gyfer gweithredu i wella cynhyrchiant, meithrin arloesedd a chynyddu nifer y swyddi yng Nghanolbarth Cymru ac maent yn rhoi'r ddadl dros fargen dwf ranbarthol. Bydd gan gynlluniau rhanbarthol rôl allweddol i'w chwarae o ran hwyluso'r seilwaith a fydd yn cefnogi twf economaidd a'i gydgysylltu â'r gwaith o ddarparu cartrefi a gwasanaethau newydd.

### Dinas-ranbarth cryf

Bydd y Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol, a gaiff ei lunio gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid allweddol, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Bydd gan y system gynllunio, drwy Ghynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a'r penderfyniadau a wna, rôl bwysig i'r chwarae o ran creu'r lleoedd sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu'r economi ranbarthol.

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol gael ei lywio gan Fargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a'r Strategaeth Adfywio Economaidd. Dylent sicrhau y caiff penderfyniadau lleoliadol allweddol ynghylch safleoedd tai a chyflogaeth, gwasanaethau allweddol a seilwaith hanfodol eu cynllunio er mwyn cefnogi buddsoddiad a phrosiectau ledled y rhanbarth ac elwa arnynt; ac ystyried rôl prifysgolion o ran cefnogi twf ac arloesedd.

Mae'r rhanbarth yn cael ei wasanaethu gan borthladdoedd yn Aberdaugleddau, Port Talbot, Abertawe ac Abergwaun ac mae'n chwarae rôl bwysig wrth gefnogi'r sector morol a'r economi genedlaethol. Maent yn seilwaith cenedlaethol pwysig ac mae cefnogi eu rôl yn y dyfodol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn ystyriaeth allweddol.

P25 Mae gan Ddyfrffordd y Ddau Gleddau gyfuniad unigryw o harbwr naturiol, diwydiannau hirsefydlog a'r potensial ar gyfer datblygiadau strategol newydd. Dylai cynlluniau datblygu gydnabod hyn a darparu fframwaith ar gyfer rheoli twf yn y dyfodol.

## Polisi 26 – Metro Bae Abertawe P26

**Mae Llywodraeth Cymru o blaid datblygu Metro Bae Abertawe a bydd yn gweithio gydag asiantaethau er mwyn sicrhau y caiff ei gyflawni.**
**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi'r cynllun a chynllunio twf er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a allai ddeillio o gysylltedd rhanbarthol gwell.**

P26 Dylai'r Cynlluniau Datblygu Strategol geisio gwella cysylltedd ledled y rhanbarth a dylai ystyried cynigion hirdymor megis cynllun Metro Abertawe, a all ddarparu sail ar gyfer integreiddio gwaith cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn well. Mae'r Metro yn cynnig cyfle i wella hygyrchedd ledled y rhanbarth ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Yn unol â P16, mae'n rhaid i gynlluniau datblygu sicrhau bod penderfyniadau strategol hirdymor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn ardaloedd a fydd yn cael budd o well hygyrchedd a mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Lle y caiff coridorau trafnidiaeth newydd eu creu gan gynllun y Metro, mae'n rhaid ymchwilio i'r posibilrwydd o ymgorffori seilwaith gwyrdd o fewn y coridorau hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 a'r rhwydwaith cefnffyrdd gan gynnwys drwy ei Rhaglen Mannau Cyfyng o ymyriadau ar raddfa fach y bwriedir iddynt i'r afael â mannau cyfyng lle y ceir tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd.

### Rhanbarth â llawer o adnoddau

Mae gan Ganolbarth a De-orllewin Cymru adnoddau naturiol eithriadol, sy'n cynnwys yr arfordir, dau barc cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, mwynau, tir amaethyddol, dŵr a thirwedd o ansawdd uchel. Dylai cynlluniau datblygu ddarparu fframwaith ar gyfer eu rheoli a'u gwella, er mwyn iddynt allu cael eu mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol a sicrhau manteision economaidd i gymunedau'r rhanbarth.

Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn cyfrannu at ddatgarboneiddio cymdeithas ac yn helpu i wireddu'r weledigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae cryn botensial ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt, ynni'r llanw ac ynni solar a dylai cynlluniau datblygu ddarparu fframwaith ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig.

Mae mwynau ac agregau'r rhanbarth yn chwarae rôl bwysig o ran cefnogi datblygiadau ledled Cymru a Lloegr. Mae chwareli gweithredol yn y rhanbarth, yn bennaf o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Cheredigion, sy'n cyflenwi tywod a graean i farchnadoedd lleol yn bennaf. Mae Powys yn ffocws pwysig ar gyfer cloddio am dywodfaen a cherrig igneaidd ac mae'n ateb y galw amdanynt yng Nghymru a thu hwnt.

### Rhanbarth amrywiol

Mae rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn cefnogi diwydiant twristiaeth mawr ac amrywiol. Dylai cynlluniau datblygu a phenderfyniadau ar geisiadau cynllunio ddarparu fframwaith cadarnhaol i gefnogi twf a sicrhau y gall cymunedau ym mhob rhan o'r rhanbarth gael budd o'u tirweddau, eu hamgylchedd naturiol a hanesyddol, eu hasedau treftadaeth a'u hatyniadau i ymwelwyr er mwyn cefnogi a thyfu eu heconomïau. Mae'n bwysig bod treftadaeth unigryw'r rhanbarth yn cael ei diogelu a'i gwella gan ddatblygiadau o ansawdd uchel.



# De-ddwyrain Cymru

**Mae bron hanner poblogaeth** Cymru yn byw yn y rhanbarth hwn.

Tyfodd poblogaeth y rhanbarth **fwy na 9% rhwng 1997–2017**.

Bu twf y boblogaeth rhwng 1997-2017 yn anwastad, **gyda'r twf mwyaf yng Nghaerdydd**.

Mae poblogaethau sylweddol mewn ardaloedd adeiledig **ledled y rhanbarth cyfan**.

Ceir **cysylltedd** da o'r dwyrain i'r gorllewin ar ffyrdd a rheilffyrdd yn rhan ddeheuol y rhanbarth.

Mae'r **cysylltedd** da ar ffyrdd o'r dwyrain i'r gorllewin ar hyd blaenau'r cymoedd.

Mae'r **cysylltedd** o'r Cymoedd i'r arfordir ar hyd lloriau llinellol y dyffrynnoedd.

Mae **topograffi o ddyffrynnoedd** yng ngogledd y rhanbarth wedi diffinio patrymau anheddu a symud.

Mae cysylltiadau da rhwng ardaloedd gwledig yn nwyrain a de'r rhanbarth **â'r prif ganolfannau trefol**.

Mae'r rhanbarth yn cael ei wasanaethu gan **Faes Awyr Caerdydd a phorthladdoedd mawr** yng Nghaerdydd, Casnewydd a'r Barri.

Ceir canolfannau poblogaeth mawr yn y **Cymoedd a'r ddwy ddinas**.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn byw mewn aneddiadau sy'n cynnwys o leiaf **25,000 bobl**.

Mae mwy na **640,000 o bobl** yn Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful.

Mae ardaloedd adeiledig parhaus yn un o nodweddion hynod y Cymoedd.

## Polisi 27 – Caerdydd P27

**Bydd Caerdydd yn cadw ac yn ymestyn ei rôl fel y brif ganolfan genedlaethol ar gyfer diwylliant, chwaraeon, hamdden, y cyfryngau, economi'r nos a chyllid. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu rhanbarthol sy'n ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n deillio o leoliad daearyddol Caerdydd a'i swyddogaethau fel Prifddinas. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi statws Caerdydd fel dinas gystadleuol yn rhyngwladol a dinas graidd ar lwyfan y DU.**

### Trosolwg

Mae rhanbarth **De-ddwyrain Cymru** yn cynnwys Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Torfaen. Dyma'r rhanbarth mwyaf poblog yng Nghymru, gyda mwy nag 1.5 miliwn o drigolion. Mae'n ddinas-ranbarth pwysig ar lefel y DU. De-ddwyrain Cymru yw'r lleiaf o'r tri rhanbarth yn ddaearyddol ac mae'n cynnwys dinasoedd arfordirol Caerdydd a Chasnewydd a hen gadarnleoedd diwydiannol Cymoedd De Cymru.



Nodir y materion rhanbarthol y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydweithio i gynllunio ar eu cyfer isod, ochr yn ochr â'r meysydd polisi gofodol y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt o safbwynt cenedlaethol er mwyn cefnogi rhanbarth y De-ddwyrain.

#### Dull cydweithredol, cyfannol

Ledled De-ddwyrain Cymru, mae amrywiaeth o faterion strategol y mae angen eu hystyried. Mae i lawer o'r materion hyn ddimensiynau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chânt eu cyflawni drwy gydweithredu ar bob lefel.


Dylid cydgysylltu a chynllunio tai, twf economaidd a seilwaith cysylltedd ar sail y rhanbarth cyfan. Dylai'r angen i reoli adnoddau naturiol a llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol, lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd. Dylai datgarboneiddio cymdeithas ac ymateb i fygythiadau newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd unrhyw waith cynllunio rhanbarthol.

Dylid gwneud penderfyniadau clir ynghylch maint a lleoliad twf drwy lunio Cynllun Datblygu Strategol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn cydweithio i gyflawni nodau'r rhanbarth. Dylai Cynllun Datblygu Strategol ganolbwyntio ar symud pobl ar draws y rhanbarth a chefnogi dull integredig o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn strategol. Dylai penderfyniadau lleoliadol allweddol gan gynnwys rhai am ganolfannau cyflogaeth, cynnydd tai strategol a gwasanaethau ganolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a hygyrch a cheisio mynd i'r afael â thagfeydd, lleihau lefelau cymudo yn y car a gwella ansawdd aer.

#### Ffocws ar gyfer twf

Yn unol â Strategaeth Ofodol y FfDC, dylid canolbwyntio twf yn Rhanbarth y De-ddwyrain yn bennaf yng Nghaerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd.

P27 Caerdydd fydd y prif anheddiad yn y rhanbarth o hyd, gyda'i thwf strategol yn y dyfodol yn cael ei lywio gan ei marchnadoedd tai a chyflogaeth cryf a bydd yn parhau â'i rôl fel prifddinas, gan gynnig lleoliad i swyddogaethau ac atyniadau lefel uwch. Bydd angen i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried y rhyngddibyniaeth rhwng Caerdydd a'r rhanbarth ehangach. Mae Caerdydd yn dibynnu ar bobl o bob rhan o'r rhanbarth ac mae sicrhau bod cymunedau o amgylch y Brifddinas yn fywiog, yn ffyniannus ac yn gysylltiedig yn helpu i gefnogi Caerdydd.




| | |
|---|---|
| Ardal Twf Cenedlaethol | |
| Cysylltedd Rhanbarthol | |
| Cysylltedd Rhyng-drefol | |
| Cysylltiadau Rhyngwladol | |
| Porthladdoedd | |
| Llain Las | |
| Parc Rhanbarthol y Cymoedd | |
| Metro De Ddwyrain Cymru | M |
| Maes Awyr Caerdydd | |
| Canolfannau Twf Cenedlaethol | |
| Canolfannau Twf Rhanbarthol | |



## Polisi 28 – Casnewydd P28

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Casnewydd fel y ffocws ar gyfer twf rhanbarthol a buddsoddi ac mae am weld y Ddinas yn chwarae mwy o rôl strategol yn y rhanbarth. Dylai'r pwyslais strategol fod ar sicrhau twf yn y Ddinas.**

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ledled y rhanbarth gydnabod Casnewydd fel ffocws ar gyfer cynnydd tai a thwf economaidd strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; seilwaith trafnidiaeth a seilwaith digidol; ac ystyried sut y gallant gefnogi rôl ranbarthol strategol gynyddol Casnewydd a manteisio arni. Dylai gwaith datblygu yn y rhanbarth ehangach gael ei reoli'n ofalus er mwyn cefnogi twf Casnewydd a darparu ffocws ar gyfer cynllunio rhanbarthol.**

**Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau yn y rhanbarth ac yn Lloegr i hyrwyddo rôl strategol Casnewydd a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yng Nghymru a Lloegr yn cefnogi Casnewydd a'r rhanbarth ehangach.**

---

Ar hyn o bryd mae Caerdydd yn mynd drwy gyfnod o dwf sylweddol o ran ei phoblogaeth a chyflogaeth, ond ni all y ddinas barhau i ehangu'n ddiderfyn heb effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd. Mae'n ddinas gryno sy'n agosáu at ei therfynau ffisegol, sy'n cynnwys Mynydd Caerffili a Mynydd y Garth i'r gogledd a Môr Hafren i'r de. Mae'n rhaid i Gaerdydd ysgogi a chefnogi twf rhanbarthol ledled y de-ddwyrain wrth wella ei statws fel prifddinas fywiog Cymru.

Bydd angen i'r Cynllun Datblygu Strategol ystyried y rhyngddibyniaeth rhwng Caerdydd a'r rhanbarth ehangach. Mae seilwaith trafnidiaeth rhanbarthol yn adlewyrchu pwysigrwydd Caerdydd ac mae wedi atgyfnerthu ei rôl fel prif ganolbwynt y rhanbarth. Mae'r potensial i gyrraedd canol Caerdydd yn gyflym ac yn gyfleus gan ddefnyddio'r Metro yn creu cyfleoedd ar gyfer datblygu aneddiadau y tu allan i'r ddinas. Mae'n rhaid i gryfder diwylliannol ac economaidd Caerdydd sicrhau ffyniant a llesiant ledled y rhanbarth.

P28 Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o weld datblygu a thwf yng Nghasnewydd, a fydd yn galluogi'r ddinas i gyflawni ei photensial fel yr ail ganolbwynt i'r rhanbarth. Mae'n cynnig cyfleoedd pwysig i ddatblygu ar safleoedd tir llwyd er mwyn darparu tai ac ardaloedd cyflogaeth newydd. Mae cyfleoedd newydd i ddarparu swyddi hyfedr yn y sector trafnidiaeth a'r sector cyfathrebu digidol a ddylai ysgogi rhagor o fuddsoddiadau economaidd. Bydd y Metro yn gwella system trafnidiaeth gyhoeddus y ddinas, yn enwedig yn y ddinas ac i drefi o'i hamgylch.Mae cysylltiadau ffordd a rheilffordd sefydledig rhwng Casnewydd a Chaerdydd, Bryste a Llundain.

Bydd twf yng Nghasnewydd yn helpu i reoli'r pwysau datblygu yng Nghaerdydd ac yn darparu ffocws strategol ar gyfer rhan ddwyreiniol y rhanbarth. Dylai'r ffocws o ran twf strategol fod ar Gasnewydd ei hun a'r ardaloedd cyfagos, er mwyn helpu i adfywio safleoedd tir llwyd.

Mae rhanbarth y De-ddwyrain yn cynnwys rhai o'r tirweddau mwyaf nodedig yn y wlad. Prin yw'r ardaloedd yn y DU sydd wedi cael eu llunio gan eu hadnoddau naturiol i'r un graddau â Chymoedd De Cymru, a lywiodd, yn eu tro, dwf y cymunedau arfordirol. Mae gwaddol dirywiad diwydiannol yr 20fed ganrif yn dal i fod yn broblem fawr. Mae'r ymrwymiad i fynd i'r afael â'r heriau hyn wedi bod yn gryf ac mae gwaith awdurdodau lleol, y trydydd sector a busnesau wedi sicrhau buddsoddiad ac wedi cefnogi mentrau adfywio ar raddfa fawr. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ganolbwyntio ar sut y gellir cyflawni gweithgarwch adfywio; sut y gellir adfer safleoedd tir llwyd mewn lleoliadau cynaliadwy i'w defnyddio eto; a sut y gall cymunedau gael y cartrefi, y swyddi a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae'n bwysig bod treftadaeth ddiwylliannol y rhanbarth yn cael ei diogelu a'i gwella gan ddatblygiadau o ansawdd uchel.



### Polisi 29 – Blaenau'r Cymoedd P29

**Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithgarwch adfywio a buddsoddi cydgysylltiedig yn ardal Blaenau'r Cymoedd er mwyn cynyddu ffyniant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, busnesau, y trydydd sector, asiantaethau a rhanddeiliaid i gefnogi buddsoddiad, gan gynnwys yn y sector gweithgynhyrchu, a sicrhau bod dull gweithredu rhanbarthol yn cael ei fabwysiadu er mwyn mynd i'r afael â phroblemau yn ardal Blaenau'r Cymoedd.**

**Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ledled y rhanbarth nodi sut y gallant helpu ardal Blaenau'r Cymoedd, yn uniongyrchol a thrwy ddull gweithredu rhanbarthol cydgysylltiedig, i sicrhau mwy o ffyniant, cefnogi gweithgarwch adfywio a gwella llesiant.**

### Polisi 30 – Lleiniau Glas yn Ne-ddwyrain Cymru P30

**Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i leiniau glas gael eu nodi drwy'r Cynllun Datblygu Strategol er mwyn rheoli ffurf a thwf trefol yn Ne-ddwyrain Cymru, yn enwedig o gwmpas Casnewydd a rhannau dwyreiniol y rhanbarth.**

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol ystyried y gydberthynas rhwng unrhyw leiniau glas newydd a'r llain las o amgylch Bryste.**

---

P29 Mae ardal Blaenau'r Cymoedd, sy'n cynnwys rhannau gogleddol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen, yn ardal â blaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru a dylai fod yn flaenoriaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol. Mae gan yr ardal, fel y Cymoedd yn fwy cyffredinol, un o'r patrymau anheddau trefol mwyaf nodedig yn y DU; mae wedi gweld buddsoddiad sylweddol yn yr A465 o raglenni ariannu'r UE ac yn y dyfodol drwy Fetro De Cymru. Mae ganddi'r potensial i adeiladu ar yr hyn sydd ganddi i'w gynnig o ran twristiaeth a'i hagosrwydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n rhaid cydgysylltu strategaethau, cynlluniau a buddsoddiad cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar yr ymyriadau hynny a all fynd i'r afael â'r materion economaidd a chymdeithasol strwythurol sy'n effeithio ar ffyniant a llesiant cymunedau.

Bydd cynllunio a chydgysylltu'r gwaith o gyflenwi tai newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd yn dasg bwysig ar gyfer y broses cynllunio rhanbarthol. Yn ôl amcangyfrif canolog Llywodraeth Cymru bydd angen 71,200 o gartrefi ychwanegol yn y rhanbarth tan 2038 a thros y 5 mlynedd cyntaf (2018/19 i 2022/23) fod angen i 48% fod yn dai fforddiadwy. Mae'r amcangyfrifon hyn yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio Gofynion Tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol arnynt a dylid eu hystyried ar lefel ranbarthol. Mae'n hanfodol bod tai yn cael eu hystyried ar lefel ranbarthol ac nid ar sail dyheadau awdurdodau cynllunio lleol unigol. Bydd deall a rheoli pwysau datblygu gwahanol ledled y rhanbarth yn fater allweddol a bydd angen i Gynlluniau Datblygu Strategol ystyried yr angen am dai ledled y rhanbarth.

P30 Dylai penderfyniadau strategol ynghylch lleoliad datblygiadau, gwasanaethau a seilwaith allweddol gefnogi dinasoedd y rhanbarth a'r cymunedau yn ei Gymoedd a chael eu gwneud ar lefel ranbarthol, gan sicrhau eu bod wedi'u lleoli yn y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy yng nghyd-destun y rhanbarth cyfan. Mae Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio lleiniau gwyrdd yn rhanbarth y De-ddwyrain i reoli a chynllunio twf trefol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun polisi ar eu cyfer. Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las sy'n cynnwys yr ardal i'r gogledd o'r M4 o Groesfannau Hafren i Ogledd Caerdydd.

**Rhanbarth teg sy'n tyfu**

Mae rhanbarth y De-ddwyrain yn cyfrif am 51% o gyfanswm allbwn economaidd economi Cymru ac mae dros 55% o'r anghenion tai ychwanegol yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf yn y rhanbarth. Mae amcangyfrifon yn awgrymu y bydd y gyfran hon yn cynyddu yn y dyfodol. Bydd y Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol, a gaiff ei lunio gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid allweddol, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Bydd gan y system gynllunio, drwy Ghynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a'r penderfyniadau a wna, rôl bwysig i'r chwarae o ran creu'r lleoedd sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu'r economi ranbarthol.

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol geisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddi yn y sector lled-ddargludyddion cyfansawdd. Mae technoleg lled-ddargludyddion cyfansawdd wrth wraidd y chwyldro diwydiannol nesaf ac mae'n dechnoleg sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru. Mae'r dechnoleg wrth wraidd amrywiaeth o gynhyrchion, gynnwys ffonau clyfar, Wi-Fi, systemau cyfathrebu â lloeren, roboteg a deuodau allyrru golau (LEDs) effeithlon. Yng Nghymru, mae diwydiant, y byd academaidd a'r Llywodraeth yn gweithio i ddatblygu clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd cyntaf y byd. Drwy ddatblygu'r galluoedd hyn mae Cymru wedi sefydlu'r elfennau craidd ar gyfer ecosystem lled-ddargludyddion cyfansawdd a fydd yn helpu i bontio gwaith ymchwil sydd ar gam cynnar, ymchwil ddiwydiannol gymhwysol ac arloesedd drwodd i'r sector gweithgynhyrchu meintiau mawr a'i gadwyn gyflenwi ategol.

Nid yw ffyniant wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ledled y rhanbarth. Mae Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd wedi gwneud cynnydd o ran datblygu ac atgyfnerthu dull gweithredu rhanbarthol. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried sut y gellir dosbarthu ffyniant yn gyfartal ar draws y rhanbarth, sut y gellir atgyfnerthu economïau lleol a sut y gall twf yn yr ardaloedd economaidd cryfaf ddod â manteision i'r rhanbarth cyfan. Dylent ystyried anghydraddoldebau cymdeithasol ac amgylcheddol ac anghydraddoldebau o ran iechyd a sicrhau bod dewisiadau o ran defnydd tir strategol yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae gwella hygyrchedd a'r ffordd mae pobl a nwyddau yn symud yn flaenoriaeth strategol allweddol a gall gefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

**Yr iaith Gymraeg**

Mae mwy na 150,000 o siaradwyr Cymraeg ledled y rhanbarth ac mae'r nifer yn tyfu. Mae'n bwysig bod cynlluniau datblygu yn ystyried y gydberthynas rhwng cyflenwad tai, trafnidiaeth a thwf economaidd strategol, a'r Gymraeg.

**Rhanbarth integredig a chysylltiedig**

Yn draddodiadol, mae rhanbarth y De-ddwyrain wedi bod yn un integredig iawn, gyda'r gydberthynas rhwng y dinasoedd, y Cymoedd a'r ardaloedd gwledig cyfagos yn llywio rolau a swyddogaethau aneddiadau yn y rhanbarth. Bydd y cyfle i adeiladu ar y cydberthnasau hyn a'u hailsefydlu lle mae maent wedi gwanhau, yn ei gwneud yn bosibl i faterion y mae'n anodd mynd i'r afael â nhw yn lleol, gael eu hystyried gyda'i gilydd yn rhanbarthol.

Bydd angen i Gynllun Datblygu Strategol ystyried ble y bydd pobl yn byw, yn gweithio, yn siopa ac yn treulio eu hamser hamdden nawr ac yn y dyfodol a lleoliad y seilwaith iechyd, addysg a chymdeithasol allweddol y maent yn dibynnu arno. Dylai ystyried sut y caiff yr ynni yn y rhanbarth ei gynhyrchu a'i gludo; sut y caiff gwastraff ei reoli; a'r seilwaith digidol sydd ei angen i gynnal cymunedau'r rhanbarth. Drwy ganolbwyntio ar wella hygyrchedd a nodi'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy, dylai cynllun datblygu strategol wneud dewisiadau clir ynglŷn â lleoliadau strategol a chynllunio ar gyfer y De-ddwyrain fel ardal gyfan gydlynus.

## Polisi 31 – Twf mewn aneddiadau sy'n canolbwyntio ar gludiant gynaliadwy P31

**Dylid canolbwyntio gwaith datblygu a thwf yn y rhanbarth ar leoedd â chysylltedd teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus da. Dylid canolbwyntio gwaith datblygu ar dir sy'n agos at orsafoedd rheilffordd a Metro prif linell presennol a newydd arfaethedig.**

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynllunio twf er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a allai ddeillio o gysylltedd rhanbarthol gwell.**

**Mae Llywodraeth Cymru o blaid datblygu Metro De Cymru a bydd yn gweithio gydag asiantaethau er mwyn sicrhau y caiff ei gyflawni.**

## Polisi 32 – Maes Awyr Caerdydd P32

**Mae Llywodraeth Cymru o blaid ehangu a datblygu Maes Awyr Caerdydd.**

**Cefnogir cynigion i gynyddu capasiti'r maes awyr; darparu cyfleusterau a gwasanaethau teithwyr newydd a gwell yn y maes awyr; a gwella cysylltiadau trafnidiaeth â'r maes awyr. Cefnogir gwelliannau i hygyrchedd a dylent flaenoriaethu newid moddol o'r car preifat i ddulliau cynaliadwy o deithio gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus.**

**Mae Llywodraeth Cymru o blaid datblygu tir ger Maes Awyr Caerdydd sy'n rhan o'r Ardal Fenter lle mae'n cefnogi swyddogaethau'r maes awyr.**

**Dylid rheoli datblygiadau newydd o amgylch y maes awyr yn ofalus er mwyn sicrhau na chyfyngir neu nad amherir ar unrhyw gynlluniau i ehangu'r maes awyr ymhellach neu ei newid.**



P31 Mae'r dwysedd poblogaeth cymharol uchel yn Ne-ddwyrain Cymru yn golygu bod y rhanbarth yn addas iawn ar gyfer Datblygiadau sy'n Canolbwyntio ar Gludiant, fel y nodir yn P1. Bydd ansawdd, amrywiaeth ac amlder gwasanaethau trafnidiaeth yn amrywio ledled y rhanbarth a dylai awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried wrth lunio'r strategaeth anheddu ranbarthol, yn unol â P16.

Mae cynllun Metro De Cymru yn cynnig cyfle strategol pwysig i wella seilwaith rheilffyrdd, bysiau, beicio a cherdded ledled y rhanbarth a darparu ffocws ar gyfer buddsoddi, adfywio a gwaith datblygu cysylltiedig. Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu sicrhau bod penderfyniadau strategol hirdymor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn ardaloedd a fydd yn cael budd o well hygyrchedd a mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan gynllun y Metro.

Mae'r Metro yn adlewyrchu pwysigrwydd Caerdydd i'r rhanbarth ond mae hefyd yn cynnig y potensial a'r cyfle i rannau eraill o'r rhanbarth weithredu fel canolfannau allweddol. Bydd Merthyr Tudful, Pontypridd, Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr yn lleoliadau strategol bwysig ar system Metro De Cymru. Bydd gweithgarwch adfywio a thwf economaidd cynaliadwy a chynhwysol yn y trefi hyn yn helpu i gyflawni uchelgeisiau prosiect Ein Cymoedd, Ein Dyfodol. Lle y caiff coridorau trafnidiaeth newydd eu creu gan gynllun y Metro, dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o droi'r coridorau hyn yn seilwaith gwyrdd.

P32 Mae Maes Awyr Caerdydd yn rhan hanfodol o seilwaith trafnidiaeth strategol Cymru. Mae'n borth rhyngwladol sy'n cysylltu Cymru â'r byd ac mae'n sbardun allweddol o fewn economi Cymru. Mae cynigion i ehangu gweithrediadau'r maes awyr a gwella cysylltedd a hygyrchedd yn hanfodol i lwyddiant y maes awyr yn y dyfodol a'i allu i gystadlu â meysydd awyr rhanbarthol eraill yn y DU. Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau uchelgeisiol i gynyddu nifer y teithwyr sy'n defnyddio Maes Awyr Caerdydd o 1.5 miliwn o deithwyr y flwyddyn i dair miliwn a mwy erbyn 2040. Bydd y cynnydd arfaethedig yng nghapasiti'r maes awyr yn gofyn am gyfleusterau a gwasanaethau teithwyr newydd a gwell yn y maes awyr.

## Polisi 33 – Parc Rhanbarthol y Cymoedd P33

**Mae Llywodraeth Cymru o blaid sefydlu Parc Rhanbarthol y Cymoedd.**

**Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ymgorffori ei egwyddorion yn eu fframweithiau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid allweddol i gefnogi Parc Rhanbarthol y Cymoedd a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer datblygiadau newydd.**

Mae'r rhanbarth yn cael ei wasanaethu gan borthladdoedd yng Nghasnewydd, Caerdydd a'r Barri. Mae pob un ohonynt yn chwarae rôl economaidd bwysig a, gyda'i gilydd, maent yn seilwaith allweddol yn y rhanbarth. Dylai cynlluniau datblygu ystyried rôl y porthladdoedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a sefydlu fframweithiau i gefnogi'r porthladdoedd hyn ac, o bosibl, helpu i'w hehangu. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 a'r rhwydwaith cefnffyrdd gan gynnwys drwy ei Rhaglen Mannau Cyfyng o ymyriadau ar raddfa fach y bwriedir iddynt i'r afael â mannau cyfyng lle y ceir tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd.

### Afonydd a dyffrynnoedd

P33 Mae Llywodraeth Cymru, cymunedau a phartneriaid wedi datblygu fframwaith cadarnhaol drwy 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' er mwyn ysgogi newid a llywio gweithgarwch adfywio. Nod Parc Rhanbarthol y Cymoedd yw manteisio i'r eithaf ar botensial cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol asedau naturiol ac asedau treftadaeth ddiwylliannol y Cymoedd ac mae'n bwysig bod y system gynllunio yn helpu i'w gyflawni.

Mae poblogaeth ddwys y rhanbarth a'i dwf hanesyddol a'i dwf yn y dyfodol yn golygu ei fod yn defnyddio llawer o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol. Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau materol ac yn hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau a'i fod yn uchelgeisiol wrth gefnogi ffyrdd arloesol o hyrwyddo economi gylchol. Mae'r rhanbarth yn dibynnu'n fawr ar agregau morol o Fôr Hafren ac Aber Afon Hafren ac mae'r ardal hon yn gwasanaethu marchnadoedd yng Nghymru a Lloegr.

# Y berthynas rhwng polisïau'r FfDC a'r canlyniadau mae'n anelu i'w gwireddu.

| CANLYNIADAU<br>Cymru lle mae pobl yn byw ... | P1 | P2 | P3 | P4 | P5 | P6 | P7 | P8 | P9 | P10 | P11 | P12 | P13 | P14 | P15 | P16 | P17 | P18 | P19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | ● |
| mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | ● |
| mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | ● | | ● | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | ● |
| mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | | | ● | ● | ● | ● | ● | | | | | | | | | ● | ● | ● | |
| ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | | | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo | ● | ● | ● | ● | | | | | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | |
| mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy | ● | ● | ● | ● | ● | | ● | | | | | | | | | ● | ● | ● | |
| mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf | | | | ● | | ● | | | | | | | | | | ● | ● | ● | |
| mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd | ● | ● | | ● | | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | | ● | ● | ● | |
| mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig | ● | | | ● | | | | ● | ● | ● | ● | ● | | | | ● | ● | ● | |
| mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio | ● | ● | | ● | | | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |

| CANLYNIADAU<br>**Cymru lle mae pobl yn byw …** | P20 | P21 | P22 | P23 | P24 | P25 | P26 | P27 | P28 | P29 | P30 | P31 | P32 | P33 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach | | ● | | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | ● |
| mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | | | | ● | | | |
| mewn rhanbarthau nodedig sy’n mynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| mewn lleoedd lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu | ● | | ● | ● | ● | | | ● | | | | | | |
| ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy’n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy | | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● | ● |
| mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo | ● | ● | ● | ● | ● | ● | | ● | ● | | | | ● | ● |
| mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy | | ● | | ● | ● | | ● | ● | ● | ● | ● | | | |
| mewn lleoedd â seilwaith digidol o’r radd flaenaf | | | | ● | ● | | | | ● | | | | | |
| mewn lleoedd sy’n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd | | | ● | | | | | ● | ● | ● | | | | |
| mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig | | | | | | | ● | | | | | | | ● |
| mewn lleoedd sydd wedi’u datgarboneiddio | | ● | ● | ● | ● | | ● | ● | ● | | ● | ● | | |